



Buddsoddi mewn Twf a Swyddi:

Adolygiad Annibynnol o'r Trefniadau ar gyfer
Gweithredu Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol
Ewropeaidd 2014 - 2020

Dr Grahame Guilford
Mawrth 2013

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras a Braille, ar gais.

Cysylltwch efo Tîm Cyfathrebu WEFO am gyngor neu gwybodaeth ar Linell Gymorth WEFO. Ffôn 0845 010 3355 neu E-bost: enquiries-wefo@wales.gsi.gov.uk.

Tabl Cynnwys

Rhagair: Strwythur yr Adroddiad a Chydnabyddiaethau	tudalen	5
1. Cyflwyniad	tudalen	6
2. Argymhellion	tudalen	8
3. Cefndir, Cyd-destun a Diffiniadau	tudalen	12
3.1. Dulliau Gweithredu	tudalen	12
3.2. Materion Gwaelodol	tudalen	13
3.3. Prif Ddiffiniadau	tudalen	14
4. Themâu, Casgliadau a Chyfleoedd	tudalen	20
4.1. Themâu a Chasgliadau	tudalen	20
4.1.1. Ble Rydym Ni Heddiw?	tudalen	20
4.1.2. Cynllunio	tudalen	24
4.1.3. Dethol Prosiectau	tudalen	25
4.1.4. Cyflawni a Chydymffurfio	tudalen	27
4.1.5. Casgliadau	tudalen	28
4.2. Cyfleoedd	tudalen	29
4.2.1. Cynllunio	tudalen	29
4.2.2. Dethol Prosiectau	tudalen	31
4.2.3. Cyflawni a Chydymffurfio	tudalen	34
4.2.4. Cyfleoedd Llywodraethu ac Integreiddio	tudalen	36
5. Deunydd Ategol	tudalen	38
5.1. Y Model Un Contractwr	tudalen	38
5.2. Rheoli Portffolio	tudalen	40
5.3. Mekanweithiau Rhagosod	tudalen	42
5.4. Cyflenwi a Monitro	tudalen	44

5.5.	Modelu a Dadansoddi Data	tudalen	46
5.6.	Dull o Ddatblygu Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd	tudalen	47
5.7.	Y Cefndir Hanesyddol	tudalen	49
5.8.	Ymchwil ac Astudiaethau Achos	tudalen	50
5.9.	Ymatebion Ysgrifenedig	tudalen	52
6.	Atodiadau	tudalen	54
6.1.	Cylch Gorchwyl	tudalen	54
6.2.	Methodoleg	tudalen	57
6.3.	Rhestr o Gyfweleion	tudalen	59
6.4.	Rhestr o Astudiaethau Achos a Chyfweleion	tudalen	64
6.5.	Geirfa	tudalen	66
6.6.	Enghreifftiau o Ddata Ychwanegol	tudalen	77
6.7.	Bywgraffiad o Dr Grahame Guilford	tudalen	79

Rhagair: Strwythur yr Adroddiad a Chydnabyddiaethau

Rhennir yr adroddiad hwn yn chwe adran. Mae Adran 1 yn darparu cyflwyniad cryno ac Adran 2 yn rhestru fy argymhellion. Yn Adran 3, rwyf wedi ceisio darparu peth cefndir a chyd-destun allweddol sy'n disgrifio sut yr euthum ati i lunio'r adolygiad, yn trafod rhai materion gwaelodol a generig ac yn diffinio rhai termau allweddol a ddefnyddiais yn yr adroddiad. Mae Adran 4 yn disgrifio'r prif themâu sy'n codi o'r adolygiad, fy nghasgliadau yn eu cylch, a'r prif gyfleoedd y credaf sy'n codi ohonynt ar gyfer gwella rôl y Cronfeydd Strwythurol yn economi Cymru. Mae'n darparu'r egwyddor resymegol sy'n sail i'm hargymhellion. Yn Adran 5, ceir amrywiaeth o ddeunydd cefndir ac ategol, yn cynnwys disgrifiad manylach (Adran 5.7) o ddatblygiad hanesyddol y defnydd o'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru a'r hyn y maent wedi'i gyflawni hyd yma. I gloi, yn Adran 6 ceir amryw o atodiadau, yn cynnwys Cylch Gorchwyl yr adolygiad a'i fethodoleg.

Hoffwn gofnodi fy niolch yn ffurfiol i'r lliaws o bobl a roddodd o'u hamser i ddarparu mewnbwn llafar ac ysgrifenedig i'r adolygiad ac am y trafodaethau gwerthfawr a gefais gyda nhw. Mewn adolygiad o'r math yma, fodd bynnag, rhaid dweud mai fi sy'n gyfrifol am y casgliadau a'r argymhellion a gynigias. Hoffwn ddiolch hefyd i dîm yr Ysgrifenyddiaeth yn Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) am eu cefnogaeth ragorol drwy gydol yr adolygiad. Hebddynt, byddai dod i ben â'r baich gwaith wedi bod yn amhosibl. Diolch hefyd i'r tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso yn WEFO am eu cefnogaeth gadarnhaol ac adeiladol iawn.

1. Cyflwyniad

Ers ei gyflwyno, mae Polisi Cydlyniant yr Undeb Ewropeaidd wedi ceisio lleihau anghysondebau rhwng rhanbarthau cyfoethocaf a rhanbarthau tlotaf Ewrop. Mae'r Cronfeydd Strwythurol, sy'n cynnwys Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), yn darparu arian i ategu'r nod hwn. Mae Cymru wedi cael budd sylweddol o raglenni'r Cronfeydd Strwythurol, ac mae'n parhau i wneud hynny. Buddsoddodd Rhaglenni Amcan 1, 2 a 3 £1.5 biliwn o Gronfeydd Strwythurol rhwng 2000-2006, gan helpu i ddatblygu economi a gweithlu Cymru. Yn ystod cyfnod presennol y rhaglen, sef 2007-2013, mae Cymru yn cael Cronfeydd Strwythurol drwy'r Rhaglen Gydyfeirio yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a'r Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol yn Nwyrain Cymru. Yn ogystal, mae'r Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC) yn cefnogi mentrau cydweithredol rhwng Cymru ac Iwerddon, gan gynnwys y Rhaglen Cymru Iwerddon. Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni hyn yn werth £1.9 biliwn mewn arian UE yn unig ac yn canolbwyntio'n bennaf ar greu swyddi cynaliadwy a thwf economaidd.

Wrth i Gymru baratoi i gychwyn ar gylch arall o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, mae'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd wedi gofyn i mi adolygu'r trefniadau rheoli a gweithredu ar gyfer rhoi'r cronfeydd ar waith. Yn benodol, gofynnodd i mi archwilio'r modd y maent wedi datblygu dros y ddau gylch blaenorol, beth a ddysgwyd o'r datblygiad hwnnw a sut y gellid defnyddio'r hyn a ddysgwyd fel sail i newidiadau wedi'u llunio ar gyfer sicrhau canlyniadau gwell i Gymru yn y cylch nesaf.

Arweiniodd ymarfer ar ddiwedd cylch 2000-2006 o Gronfeydd Strwythurol at benderfyniad i newid i fodel cyflawni symlach a mwy strategol gyda llai o brosiectau a fframwaith cliriach o flaenoriaethau economaidd. Nod hyn oedd canolbwyntio buddsoddiadau ar y meysydd economi allweddol a sicrhau synergedd â strategaeth datblygu economaidd gyffredinol Llywodraeth

Cymru. Y farn gyffredinol oedd mai'r cyfuniad o ffocws a synergedd a oedd yn cynnig y dull gorau o greu meysydd o fás critigol yn yr economi a fyddai'n sail i waddol economaidd gynaliadwy.

Yn fy marn i, roedd yr amcanion hyn yn briodol, ac maent yn parhau felly. Mae angen parhau'r ymdrechion er mwyn eu cyflawni'n llawn yn y cylch nesaf ac oherwydd hynny, ceisiais nodi'r meysydd lle byddai'r ymdrechion hynny'n fwyaf manteisiol. Mae'r profiad gweithredu a enillwyd yn ystod y cylch presennol yn galonogol gan y bydd yn rhoi sylfaen ddiogel ar gyfer llawer o'r gwelliannau a awgrymais yn ystod y cylch nesaf. Serch hynny, datgelodd y profiad hwn fod llawer o anghydbwysedd yn parhau o fewn y system Cronfeydd Strategol, sy'n tueddu i lesteirio'r broses o greu más critigol economaidd, a bwriad fy argymhellion yw awgrymu ffyrdd manteisiol o addasu'r rhain. Fodd bynnag, fy nghasgliad cyffredinol yw y bydd addasu'r cydbwyseddau allweddol hyn yn helpu i gefnogi twf cynyddol yn ystod y cylch nesaf ond bydd y newid pellgyrhaeddol yr anelwn amdano'n galw am waith diflino gan y rhanddeiliaid allweddol hyd at 2014, ac ar ôl hynny.

2. Argymhellion

Yn yr adran hon, rwyf wedi nodi fy argymhellion. Mae'r cefndir iddynt i'w weld yn Adran 4. Daw Adran 4 i'r casgliad fod sylfaen weithredol gadarn yn bodoli o fewn y system Cronfeydd Strwythurol a bwriedir i'r argymhellion hyn adeiladu arni a chreu sail ymarferol ar gyfer symud ymlaen i'r cylch nesaf. Maent wedi'u rhestru o dan dri phennawd. Gwneuthum hynny am y credaf fod cyd-ddibyniaeth hierarchaidd yn perthyn iddynt, gydag argymhelliad (1) yn rhagofyniad sy'n hwyluso argymhellion gweithredol (2-6) ac yn gwella'u heffaith. Gellir gwella'r effaith hon ymhellach wedyn drwy gyfres o argymhellion amgylcheddol a chyfundrefnol (7-14) a fydd yn gwella effeithlonrwydd cyffredinol y system Cronfeydd Strwythurol, yn cynyddu dealltwriaeth ohoni'n allanol ac yn cynnig gwybodaeth well ynglŷn â rheolaeth strategol.

Argymhelliad Strategol

A1 Datblygu Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd (EPF) er mwyn nodi'r meysydd y gall Cronfeydd Strwythurol gyfrannu yn y ffordd fwyaf effeithiol a synergaid at bolisi datblygu economaidd cyffredinol Llywodraeth Cymru. Dylid creu EPF ar lefel ddigon manwl i ddarparu canllawiau i noddwyr prosiectau posibl, i hwyluso'r gwaith o wneud penderfyniadau wrth ddethol prosiectau ac i gefnogi'r gwaith o reoli sut y cânt eu gweithredu. WEFO a ddylai fod yn gyfrifol am gynhyrchu'r EPF gan bwysu ar fewnbwn perthnasol o broses ddatblygu strategaeth economaidd Llywodraeth Cymru ac ystyried unrhyw ymrwymadau penodol mewn perthynas â pholisi'r UE a rheoliadau Cronfeydd Strwythurol. ([Adran 4.2.1](#) ac [Adran 5.6](#))

Argymhellion Gweithredol

A2 Cyhoeddi'r EPF yn amserol fel rhan o'r broses o ddatblygu'r strategaethau gweithredu ar gyfer y cylch nesaf er mwyn gallu cynnal trafodaethau ystyrlon ynglŷn â datblygiad prosiectau. Dylai WEFO

annog a hwyluso trafodaethau amrywiol â rhanddeiliaid allweddol ynglŷn â'u gallu i gyfrannu at gyflawni amcanion yr EPF. ([Adran 4.2.1](#))

- A3** Defnydd o'r EPF i hwyluso datblygiad proses arfarnu prosiectau sy'n gwahaniaethu'n fwy effeithiol rhwng risg cydymffurfio a risg busnes. Gallai hyn olygu creu proses dau gam lle caiff cymhwysedd ei weld yng nghyd-destun swyddogaeth porth, gyda'r EPF wedyn yn cyfrannu at broses ddethol yn seiliedig ar y raddau y mae prosiect yn gweddu i'w flaenoriaethau. Dylai WEFO ystyried yr argymhelliad hwn yng ngoleuni ei brosesau presennol a'i ymgynghoriadau parhaus â'i rhanddeiliaid. ([Adran 4.2.2](#) ac [Adran 5.6](#))
- A4** Defnydd o'r EPF ynghyd â'r profiad a enillwyd yn y cylch presennol o raglenni Cronfeydd Strwythurol er mwyn sefydlu rhaglen raddol ar gyfer y cylch nesaf. Gallai hyn gynnwys grŵp cychwynnol o brosiectau strategol hanfodol sy'n dangos potensial clir ar gyfer cyflawni amcanion allweddol yr EPF yn gynnar gyda chyfnod(au) dilynol i allu ymateb i amgylchiadau economaidd newidiol, ar gyfer llenwi bylchau yn y dirwedd economaidd neu ar gyfer hwyluso'r defnydd o gyllid amgen a phrosesau dethol prosiectau. Dylai WEFO ddefnyddio'u profiad o'r cylch presennol, gyda'r EPF, i nodi prosiectau a allai ffurfio rhan o'r gweithgareddau hanfodol a chychwyn trafodaethau priodol ar weithrediad. ([Adran 4.2.2](#))
- A5** Anogaeth a chefnogaeth i greu mecanweithiau cynllunio rhanbarthol a thematig credadwy sy'n gallu darparu mewnbwn i'r EPF, ynglŷn â nodi sbardunau galw, er enghraifft, a darparu cymorth ar gyfer mecanweithiau cyflawni ôl-gymeradwyo. Dylai WEFO gynnal ymgynghoriadau rhanbarthol priodol ar strwythur y mecanweithiau hyn a sut y cânt eu gweithredu. ([Adran 4.2.1](#))
- A6** Ystyried mecanweithiau a allai ddarparu cymorth mwy effeithiol i brosiectau yn eu camau cyflawni cynnar. Gallai mecanweithiau o'r fath gynnwys y defnydd o gamau paratoi a datblygiad prosesau monitro amser real. Dylid archwilio cyfraniad posibl y mecanweithiau rhanbarthol a thematig y cyfeiriwyd atynt yn argymhelliad 5. ([Adran 4.1.4](#), [Adran 4.2.3](#) ac [Adran 5.4](#))

Argymhellion Amgylcheddol a Chyfundrefnol

- A7** Datblygiad model gweithio o system gyflawni'r Cronfeydd Strwythurol yn rhoi darlun amser real o gynnydd yn erbyn y cynllun ar lefel strategol. ([Adran 5.5](#))
- A8** Mabwysiadu dull rheoli portffolio yn ffurfiol ar gyfer y cylch nesaf o Gronfeydd Strwythurol, gan gynnwys sefydlu amcan cyffredinol yng nghyd-destun datblygiad economaidd yng Nghymru, a defnyddio'r dull hwn wrth lunio adroddiadau ar gynnydd. ([Adran 5.2](#))
- A9** Ystyried y prosesau parhaus ar gyfer adolygu canllawiau WEFO yng ngoleuni profiad a enillwyd yn ystod y cylch presennol a mewnbwn rhanddeiliaid gyda golwg ar gyflawni gwelliant parhaus o ran y canllawiau eu hunain, a sicrhau hefyd fod y llinell rhwng canllawiau (y gall WEFO eu darparu) a chyngor cyfreithiol (sy'n rhaid i noddwyr prosiectau ofyn amdano eu hunain) yn ddigon eglur. ([Adran 4.1.3 ac Adran 5.7](#))
- A10** Defnyddio'r profiad a enillwyd yn y cylch presennol i sefydlu cronfeydd data o arbenigedd a phrofiad o fewn WEFO, wedi'i ategu o bosibl drwy benodi mentoriaid profiadol, i sicrhau bod gan staff WEFO ystod eang o wybodaeth gronedig i'w cynorthwyo wrth iddynt ymwneud â rhanddeiliaid allanol. ([Adran 4.1.3 ac Adran 4.2.4](#))
- A11** Gyda'r Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru, adolygu'r prosesau asesu risg a'r lefel ganlyniadol o waith archwilio a gwerthuso a wnaed er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, eu bod yn gymesur â lefel wirioneddol y risg mewn prosiectau. ([Adran 4.2.3](#))
- A12** Ar yr adeg briodol, dylid ystyried a fyddai lleoli WEFO mewn rhan arall o Lywodraeth Cymru yn fwy effeithiol. Dylai'r ystyriaethau hyn roi pwyslais arbennig ar amseru yng ngoleuni perfformiad y system Cronfeydd Strwythurol mewn cylch yn y dyfodol. ([Adran 4.2.4](#))
- A13** Ar adeg briodol, dylid gofyn i Bwyllgor Monitro Rhaglenni (PMC) Cymru Gyfan ystyried ei rôl yn y dyfodol o fewn cyfyngiadau statudol ei swyddogaeth. ([Adran 4.2.4](#))

A14 Dylid annog yr ymdrechion sy'n parhau i archwilio sut mae ffrydiau ariannu yn integreiddio â'i gilydd er mwyn sicrhau mwy o effeithiolrwydd ac effaith mewn cylch Cronfeydd Strwythurol yn y dyfodol. Dylid ystyried cefnogi integreiddio drwy systemau rheoli a phrosesu cyffredin, a llywodraethu cyffredin, efallai drwy ymestyn rôl y PMC yn y dyfodol. ([Adran 4.2.4](#))

3. Cefndir, Cyd-destun a Diffiniadau

3.1. Dulliau Gweithredu

Er mai amcan yr adolygiad hwn yw ystyried y trefniadau rheoli a gweithredu ar gyfer y ffordd y defnyddiwn y Cronfeydd Strwythurol i sbarduno datblygiad economaidd yng Nghymru, credaf na ellir gwneud hynny'n iawn heb ystyried y Cronfeydd Strwythurol yng nghyd-destun economi Cymru'n gyffredinol. Yn y cyd-destun hwnnw, maent yn dod yn un o'r ysgogiadau ariannol sydd ar gael i'r economi. Mae amodau penodol ynghlwm wrthynt, ynghlân â sut a lle y ceir eu defnyddio er enghraifft, ond yn gyffredinol, gallant fynd i'r afael â'r un meysydd gweithgaredd ag a geir yn yr economi ehangach. Gallai rhywun ddadlau felly mai parhau i ganolbwyntio ar ddod o hyd i'r rôl synergaid orau ar gyfer Cronfeydd Strwythurol mewn strategaeth datblygu economaidd gyffredinol yw'r ffordd orau o gyfrannu'n effeithiol at greu más critigol a thwf hirdymor. Y dull hwn o weithredu oedd prif ffocws yr adolygiad.

Ymdrechais hefyd i fwrw iddi'n bragmataidd ac yn ymarferol, gan ystyried y profiad a enillwyd yng Nghymru dros ddeng mlynedd o waith gyda'r Cronfeydd Strwythurol, y prosesau gweithredu a grëwyd a'r cyflawniadau a gafwyd (Adran 5.7). Roeddwn yn arbennig o ymwybodol o bwysigrwydd creu momentwm yn gynnar yn y cylch nesaf. Felly, yn achos argymhellion a allai aflonyddu ar strwythurau a phrosesau presennol, ymdrechais i gydbwysu'r risgiau a'r manteision yn ofalus. Yn hyn o beth, nid "beth sydd wedi torri a sut allwn ni ei drwsio?" oedd fy nghwestiwn, ond yn hytrach "beth sy'n gweithio a sut allwn ni ei wella?".

Ail faes lle credaf fod angen rhywfaint o bragmatiaeth yw cydymffurfiaeth â rheoliadau'r Cronfeydd Strwythurol. O reidrwydd, mae buddsoddi cronfeydd cyhoeddus yn creu angen i ddangos fod buddsoddiadau o'r fath yn cael eu gwario'n briodol, a chyfrif yn cael ei roi amdanynt, ac mae hyn wedi'i ddeall yn eglur a'i dderbyn yng Nghymru. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos y

Cronfeydd Strwythurol gan fod y cosbau sydd ar gael at ddefnydd y Comisiwn Ewropeaidd am beidio â chydymffurfio yn sylweddol. Er hynny, roedd mwyafrif y pryderon a fynegwyd wrthyf yn ystod yr adolygiad, ar lafar ac yn ysgrifenedig (Adran 5.9), yn ymwneud â'r maes hwn. Gwelir profiadau tebyg mewn rhannau eraill o Ewrop (Adran 5.8). Byddai'n afresymol peidio â chydabod bod y gofynion cydymffurfio yn sylweddol, yn enwedig ar gyfer y prosiectau hynny sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i fusnesau ac unigolion. Ceir peth tystiolaeth hefyd eu bod o bosibl yn cael eu teimlo'n waeth yng Nghymru nag mewn manau eraill (Adran 5.8). Er hynny, nid ydynt yn annisgwyl ac o ystyried graddfa llawer o'r prosiectau yn y cylch presennol o Gronfeydd Strwythurol, nid ydynt yn afresymol mewn egwyddor. Fy agwedd felly oedd cydnabod y bydd gofynion cydymffurfio sylweddol yn parhau mewn cylch o Gronfeydd Strwythurol yn y dyfodol ac i ganolbwyntio ar ddefnyddio'r profiad sylweddol a enillwyd yn y cylch presennol fel sbardun ar gyfer cynnal ymdrechion parhaus i sicrhau cydbwysedd a chymesuredd priodol.

3.2. Materion Gwaelodol

Credaf fod dau faes y gallai fod yn werth sôn amdanynt ar y pwynt hwn am eu bod yn cynrychioli rhai o gynseiliau allweddol y drafodaeth ynglŷn â'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru.

Mae'r cyntaf o'r rhain yn ymwneud â barn pobl ynglŷn â'r hyn y gall Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru ei gyflawni, beth y dylent fod yn ei gyflawni a beth y maent yn ei gyflawni mewn gwirionedd. Diddorol oedd nodi bod y graddau y bydd pobl yn priodoli "llwyddiant" i'r defnydd o'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru yn ddibynnol iawn ar eu safbwynt personol ynglŷn â phob un o'r tair elfen hon. Trwy fy argymhellion, ceisiais awgrymu ffyrdd o sicrhau lefel fwy cyson o ddealltwriaeth a chytundeb.

Mae'r ail faes yn ymwneud â'r diffiniad o "lwyddiant". Bydd unrhyw gyfarfod neu drafodaeth ar y defnydd o'r Cronfeydd Strwythurol yng

Nghymru yn anorfod yn cynnwys cyfeiriadau at niferoedd, targedau, canlyniadau, effeithiau, ansawdd, maint ac yn y blaen. Yn fy mhrofiad i, ni fydd cyfranwyr i'r trafodaethau hynny bob amser yn rhannu diffiniadau cyson o'r termau hyn na barn gyson am eu pwysigrwydd cymharol. Er enghraifft, os mai diffiniad rhywun o lwyddiant yw cyflawni'r targedau rhifiadol a gytunwyd rhwng WEFO a'r Comisiwn Ewropeaidd, cyflawni targedau gwariant cyffredinol a chydymffurfio â rheoliadau, yna ar ddiwedd y cylch presennol o Gronfeydd Strwythurol, bydd Cymru'n edrych yn llwyddiannus iawn, fel y gwelir yn Adran 5.7. Yn wir, mae llwyddiant Cymru eisoes wedi'i gydnabod yn ffurfiol o fewn y Comisiwn Ewropeaidd. Ar y llaw arall, os yw diffiniad rhywun o lwyddiant yn ymwneud â pherfformiad yn erbyn ffigurau Cynnyrch Mewnwladol Crynswth/Gwerth Ychwanegol Crynswth y pen, gellid dod i farn wahanol. Credaf fod hwn yn un o'r meysydd mwyaf allweddol o ran pennu a all Cymru wella effeithiolrwydd ei defnydd o'r Cronfeydd Strwythurol a bwriad fy argymhellion yw awgrymu ffyrdd o bennu diffiniadau mwy defnyddiol o lwyddiant er mwyn cynnig ffyrdd gwell o asesu potensial prosiectau i sicrhau llwyddiant a ffyrdd gwell o fesur a ydynt wedi gwneud hynny.

3.3. Prif Ddiffiniadau

Defnyddiais nifer o dermau yn yr adroddiad hwn nad ydynt o bosibl yn gyfarwydd ar unwaith i bawb sy'n ei ddarllen. Mae Adran 6.5 yn cynnwys geirfa ffurfiol, ond teimlaf ar y pwynt hwn y byddai'n werth darparu diffiniadau manylach o'r termau y credaf eu bod yn arbennig o allweddol.

Y System Cronfeydd Strwythurol (system CS). I ddibenion yr adroddiad hwn, rwy'n defnyddio'r ymadrodd "system CS" i ddisgrifio'r cyfuniad o'r bartneriaeth gyfan sy'n gyfrifol am weithredu'r Cronfeydd Strwythurol, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, WEFO a rhanddeiliaid ynghyd â'u perthynas â'i gilydd a'u cyfrifoldeb am gynllunio, darparu a monitro'r defnydd o'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru. Y system CS, fel y mae wedi datblygu yn ystod y cylch presennol, yw'r hyn y byddai gwyddonwyr ym maes

Gwyddorau Bywyd yn ei alw'n system gymhleth. Yr hyn y byddent yn ei olygu yw system amlgydrannol annibynnol (organeb) â rhyngweithiadau mewnol cymhleth sy'n ddarostyngedig i ddylanwad yr amgylchedd allanol lle mae'n bodoli. Mae'r system CS yng Nghymru yn y cylch presennol yn hunangynhwysol (annibynnol) i'r graddau fod ganddi gyllideb ar wahân, amserlen ar wahân, Awdurdod Rheoli ar wahân (WEFO) ac ymrwymïadau cydymffurfio ar wahân, ond y mae, serch hynny, yn ddarostyngedig i ddylanwad ei hamgylchedd allanol yn yr ystyr ei bod yn gweithredu o fewn economi Cymru'n gyffredinol ac yn agored i ddylanwadau amgylcheddol o'r Comisiwn Ewropeaidd. Pan gyfeiriaf at y system CS yn yr adroddiad hwn, rwy'n cyfeirio ati yn y cyd-destun hwnnw.

WEFO. Yn ystod yr adolygiad, pan oedd pobl yn defnyddio'r term "WEFO", gwelais eu bod yn aml yn ei ddefnyddio i olygu pethau gwahanol. Ar un pegwn, fe'i defnyddir yn syml i olygu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru fel sefydliad; ar y llall, caiff ei ddefnyddio i olygu'r system gyfan ar gyfer cyflenwi Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru (yr hyn a ddiffiniais yn yr adroddiad fel y system CS). Yn yr adolygiad hwn, defnyddiais y term WEFO i olygu'r sefydliad yn unig.

Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd (EPF). Dechreuais fy adolygiad o'r cysail nad oes diffiniad cyffredin i bawb o lwyddiant ym maes datblygu economaidd. Yn hytrach, mae'r gallu i ddiffinio a mesur llwyddiant ar y lefel leol yn dibynnu'n llwyr ar sefydlu meini prawf perthnasol sydd, yn y lle cyntaf, yn ei gwneud yn bosibl i benderfyniadau buddsoddi gael eu gwneud mewn modd amserol ac yn ail, yn ei gwneud hi'n bosibl monitro a gwerthuso canlyniadau'r penderfyniadau hynny mewn modd cynhyrchiol. Yn y cylch presennol, er enghraifft, sefydlwyd y Fframweithiau Strategol fel rhan o'r broses hon. Mae nifer o ddarnau o waith ar y gweill yn y maes ar hyn o bryd a phan gyfeiriaf at EPF yn yr adroddiad hwn, rwy'n cyfeirio'n benodol at ganlyniadau'r gwaith hwnnw y bwriedir iddo gyfeirio'r cylch nesaf o Gronfeydd Strwythurol.

Synergedd. Un o'r prif themâu sy'n rhedeg drwy'r adroddiad hwn yw synergedd a'r angen i geisio synergedd yn ein defnydd o'r Cronfeydd Strwythurol. Pan ddefnyddiaf y term, rwy'n gwneud hynny yn yr ystyr confensiynol fod ceisio synergedd yn golygu ceisio gweithgareddau ategol a chydgefnogol. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol sy'n cynrychioli swm cymharol fach o arian mewn perthynas â maint economi Cymru (tua 1-2%). Felly bydd ceisio ffocws yn y cylch nesaf yn bwysig o ran y ffordd y caiff ei ddefnyddio. Gallai EPF gwell a synergedd gwell i ysgogi ei effaith ymhellach fod yn help i ddarparu'r ffocws hwn ac rwy'n awyddus i'm hargymhellion gynorthwyo'r broses hon. Ceir tri maes lle credaf y gellir sicrhau synergedd. Yn gyntaf, o fewn y system CS ei hun; yn ail, rhwng prosiect Cronfeydd Strwythurol a gweithgaredd ategol yn yr economi ehangach; ac yn drydydd, drwy nodi prosiectau mwy o faint lle gall Cronfeydd Strwythurol chwarae rhan gymharol fach, ond rôl alluogi er hynny. Enghraifft o brosiect o'r fath yn y cylch presennol yw Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe lle mae cyfraniad Cronfeydd Strwythurol i elfen benodol o'r prosiect wedi hwyluso'r broses o ddenu symiau llawer mwy o arian allanol o ffynonellau cyhoeddus a phreifat, yn cynnwys Banc Buddsoddi Ewrop.

Risg. Cyfeiriaf yn helaeth at risg yn yr adroddiad ac wrth wneud hynny, rwy'n defnyddio'r gair yn yr ystyr cwbl dechnegol o gyfres o amgylchiadau neu ddigwyddiadau sy'n gallu dylanwadu ar ganlyniad gweithgaredd penodol ac sy'n rhaid ei asesu a'i reoli oherwydd hynny. Mae'r defnydd o'r Cronfeydd Strwythurol yn cynnwys gwneud penderfyniadau buddsoddi economaidd mewn amgylchedd rheoledig ac mae hyn yn arwain at fod yn agored i ddau fath o risg y cyfeiriais atynt fel risg cydymffurfio (rheoleiddio) a risg busnes. Nid oes elfen ddewisol yn perthyn i'r math cyntaf, ond mae'r ail fath o risg yn cynnwys elfen o ddewis, er enghraifft penderfyniad ynglŷn â phriodoldeb economaidd.

Sbardunau Galw. Credaf y bydd y cysyniad o sbardunau galw o fudd yn y cylch nesaf i ddangos enghreifftiau o ffyrdd y gall yr EPF arwain at ddefnydd

synergaidd o'r Cronfeydd Strwythurol. Yn y cyd-destun hwn, diffinïaf sbardunau galw fel cyfleoedd twf strategol, a gallai llawer ohonynt fod yn rhanbarthol. Dyma rai enghreifftiau:

- Datblygu seilwaith ynni sylweddol yng Ngogledd Cymru.
- Trydaneiddio'r rheilffyrdd a datblygiadau seilwaith cysylltiedig yn Neddwyrain a De-orllewin Cymru.
- Prosiectau strategol cenedlaethol mawr yn codi o'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.
- Datblygu rhwydwaith band eang cyflym iawn ledled Cymru.

Gallai pob un o'r rhain a chyfleoedd eraill tebyg arwain at nodi cyfleoedd ar gyfer cymorth Cronfeydd Strwythurol o dan y pedwar pennawd gweithgaredd economaidd isod. Yn ei dro, gallai'r synergedd sydd ymhlyg yn y dadansoddiad hwn gynyddu'r tebygolrwydd o greu más critigol fel sail i dwf a chreu swyddi. Felly gallai datblygu'r seilwaith ynni yng Ngogledd Cymru, er enghraifft, arwain at yr angen i wella cysylltedd er mwyn hwyluso mynediad i gyfleoedd gwaith; ar gyfer datblygu gwybodaeth newydd i gefnogi'r prosiectau; dod o hyd i gyfleoedd cadwyn gyflenwi ar gyfer busnesau bach a chanolig sydd angen buddsoddi mewn hyfforddiant neu gyfarpar; a chlustnodi gofynion sgiliau allweddol gan arwain at raglenni hyfforddi a chyflogadwyedd.

Gweithgareddau. Defnyddiaf y gair gweithgareddau yn aml yn yr adroddiad ac mewn pedwar prif ystyr. Y cyntaf o'r rhain yw gweithgareddau economaidd. Derbynnir yn gyffredinol mai'r prif elfennau sydd eu hangen ar economi ddatblygedig er mwyn cynnal twf yw sylfaen wybodaeth, sector busnes a all ymwela ar y sylfaen wybodaeth honno, gweithlu a all gyflenwi'r sgiliau sydd eu hangen ar fusnes a seilwaith sy'n hwyluso'r cysylltedd hanfodol. Er mwyn gallu cymharu â gweithgaredd yn yr economi ehangach, rwyf wedi categoreiddio buddsoddiad Cronfeydd Strwythurol o dan y pedwar gweithgaredd hwn ar bwyntiau penodol. Mae system gategoreiddio ffurfiol gan y Cronfeydd Strwythurol sy'n cynnwys "blaenoriaethau". Mae'r graffig ar y dudalen nesaf yn dangos y cysylltiad rhyngddynt yn y cylch presennol.

Cydberthynas Dosbarthiad Blaenoriaeth CS a Dosbarthiad Gweithgaredd Economaidd				
Dosbarthiad Gweithgaredd Economaidd				
	Cymorth Busnes	Cefnogaeth i Unigolion	Seilwaith – Gwybodaeth	Seilwaith – Ffisegol
Dosbarthiad Blaenoriaeth				
Cydgwyfeirio ERDF				
1				
2				
3				
4				
5				
6				
Cystadleurwydd ERDF				
1				
2				
3				
4				
5				
Cydgwyfeirio ESF				
1				
2				
3				
4				
5				
Cystadleurwydd ESF				
1				
2				
3				

Ffynhonnell: WEFO Chwefror 2013. Mae'r celloedd du yn dynodi meysydd lle mae >2% o gyfanswm y gwariant ym mhob blaenoriaeth o fewn y pennawd gweithgaredd dynodedig.

Tabl: Cydberthynas dosbarthiadau blaenoriaeth Cronfeydd Strwythurol â dosbarthiadau gweithgaredd economaidd. Ffynhonnell WEFO Chwefror 2013.

Mae fy ail ddefnydd o weithgaredd yn ymwneud â gweithgaredd allbwn. O fewn y pedwar gweithgaredd economaidd, diffiniais ddau gategori o weithgaredd allbwn, ffisegol a gwasanaeth. Mae hyn er mwyn canolbwyntio ar y gwahaniaethau a welaf yn y dull o'u trin a'u rheoli. Er enghraifft os mai allbwn prosiect seilwaith ffisegol yw adeiladu ffordd rhwng dau bwynt am gost benodol, mae'n eithaf hawdd pennu a yw'r prosiect wedi'i gyflawni ai peidio. Mae effaith economaidd, fodd bynnag, yn dibynnu a yw'r ffordd yn

cael ei hadeiladu yn y man iawn. Mewn geiriau eraill, caiff yr effaith economaidd ei phennu'n fwy yn ôl pa mor gywir yw'r strategaeth nag yn ôl yr hyn a gyflawnir. Ar y llaw arall, mae'r effaith a gyflawnir gan brosiectau busnes a chymorth i unigolion yn ddibynnol iawn ar gyflawniad. Mae'n mynnu mai'r busnesau a'r unigolion cywir sy'n cael eu dethol ac sy'n cael yr ymyriadau cywir. Mae'r trydydd defnydd yn ymwneud â gweithgareddau prosesu. Yn fy nadansoddiad o'r system CS, defnyddiais bedwar gweithgaredd proses, sef cynllunio, dethol prosiectau, cyflawni a chydymffurfio.

I gloi, cyfeiriais at weithgareddau gwerth chweil. Rhoddir ystyriaeth fanylach i'r pwnc hwn yn Adrannau 5.2 a 5.6 ond â siarad yn gyffredinol, mae ei ddefnydd yn cyfeirio at addasu'r cydbwysedd wrth dethol gweithgaredd tuag at ei werth fel cyfraniad synergaid tuag at amcan cymunedol ac i ffwrdd oddi wrth ei werth fel gweithgaredd arunig.

Mae'r graffig ar y dudalen nesaf yn ddiagram o sut y credaf fod modd cysylltu'r defnydd o sbardunau galw a gweithgareddau gwerth chweil â'r pedwar math o weithgaredd economaidd er mwyn gwella synergedd.




Diagram: Cyswllt Posibl Sbardunau Galw a Gweithgareddau Gwerth Chweil â Gweithgaredd Economaidd

4. Themâu, Casgliadau a Chyfleoedd

4.1. Themâu a Chasgliadau


Mae rhan gyntaf yr adran hon yn cyflwyno darlun o sut beth yw'r system CS, ar lefel weithredol, wrth i ni nesáu at ddiwedd y cylch presennol. Cyn y gellir clustnodi gwelliannau posibl, credaf fod yn rhaid deall beth y mae'r system yn ei gynnwys, sut y mae'n gweithredu a chael cipolwg ar pam y mae'n edrych ac yn gweithredu yn y ffordd hon. Yna, yn eu tro, ystyriais bob un o'r pedwar gweithgaredd proses (cynllunio, dethol prosiectau, cyflawni a chydymffurfio) sydd wedi rhoi'r sail weithredol ar gyfer y cylch presennol. O hyn, ffurfiais nifer o gasgliadau sy'n arwain at gyfleoedd ar gyfer gwelliannau yn y cylch nesaf. Mae ail ran yr adran yn ystyried y cyfleoedd hyn ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at fy argymhellion.

4.1.1 Ble Rydym Ni Heddiw?


Euthum ati i gychwyn i adeiladu model gweithredol o'r system CS ar lefel strategol. Roedd tair elfen allweddol yn perthyn i'r model hwn:

- Defnyddio model un prif gontractwr fel cyfatebiaeth (Adran 5.1) lle mae un prif gontractwr (WEFO yn yr achos hwn) yn cael ei benodi i gyflawni rhaglen gyffredinol drwy benodi isgontractwyr (noddwyr prosiectau) i gyflawni pob un neu rai o'u gweithgareddau yn eu tro trwy greu cadwyn gyflenwi.
- Categorioidio gweithgaredd economaidd o dan bedwar pennawd: seilwaith gwybodaeth, seilwaith ffisegol, cymorth busnes a chymorth i unigolion.
- Segmentu data ar lefel ganolraddol (Adran 5.5) drwy noddwr prosiect, gweithgaredd prosiect a maint prosiect, er enghraifft.


Hefyd, ceisiais osod lefel yr arian sydd ar gael drwy'r Cronfeydd Strwythurol yng nghyd-destun economi Cymru yn gyffredinol. Rhoddir enghreifftiau o beth o'r data hwn isod gydag enghreifftiau pellach yn Adran 6.6.



Siart: Cyfanswm cost y prosiectau (wedi'i ymrwymo) ym mhob categori gweithgaredd economaidd fel canran o gyfanswm cost rhaglen. Ffynhonnell WEFO Rhagfyr 2012



Siart: Cyfanswm cost y prosiectau (wedi'i ymrwymo) ym mhob categori sector fel canran o gyfanswm cost rhaglen. Ffynhonnell WEFO Rhagfyr 2012.



Siart: Cyfanswm gwariant cadwyn gyflenwi ym mhob categori sector fel canran o gyfanswm cost rhaglen. Ffynhonnell WEFO Rhagfyr 2012.

Teitl y Prosiect	Enw Noddwr	Categori Gweithgaredd	Cyfanswm Cost y Prosiect
Next Generation Broadband for Wales			
Convergence	Llywodraeth Cymru DEandT Transport	Seilwaith – ffisegol	294.0 miliwn
A465 Head of the Valleys Dualling Scheme	Llywodraeth Cymru DEandT Transport	Seilwaith – ffisegol	150.2 miliwn
Modern Apprenticeship World Class Skills For A Knowledge Economy	Llywodraeth Cymru DCELLS Lifelong Learning and Skills	Cymorth i unigolion	97.8 miliwn
Harbour Way	Cyngor Bwrdeisdref Sirol Castell-nedd Port Talbot	Seilwaith – ffisegol	96.5 miliwn
Skills Growth Wales	Llywodraeth Cymru DCELLS Lifelong Learning and Skills	Cymorth i unigolion	75.8 miliwn
JEREMIE Fund (P2 Conv)	Cyllid Cymru Jeremie	Cymorth busnes	75.8 miliwn
All Age Skillbuild for the Unemployed Inactive and NEET	Llywodraeth Cymru DCELLS Lifelong Learning and Skills	Cymorth i unigolion	60.0 miliwn
Genesis Cymru Wales 2 Convergence	Llywodraeth Cymru DCELLS Lifelong Learning and Skills	Cymorth i unigolion	55.8 miliwn
ReAct ESF Convergence P2	Llywodraeth Cymru DCELLS Lifelong Learning and Skills	Cymorth i unigolion	50.8 miliwn
COASTAL	Dinas a Sir Abertawe	Cymorth i unigolion	48.8 miliwn
Pathways to Apprenticeships	Llywodraeth Cymru DCELLS Lifelong Learning and Skills	Cymorth i unigolion	44.7 miliwn
JEREMIE Fund (P2 Comp)	Cyllid Cymru Jeremie	Cymorth busnes	40.8 miliwn
JESSICA Wales Urban Development Fund (UDF)	Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio LLP	Seilwaith – ffisegol	40.4 miliwn
High Performance Computing Wales	Cyfrifiadura Perfformiad Uchel (HPC) Cymru	Seilwaith – gwybodaeth	39.9 miliwn
Wales Station Improvement Programme	Llywodraeth Cymru DEandT Transport	Seilwaith – ffisegol	39.9 miliwn
Nantgarw 3	Coleg Morgannwg	Seilwaith – gwybodaeth	39.3 miliwn
Skills Growth Wales Competitiveness	Llywodraeth Cymru DCELLS Lifelong Learning and Skills	Cymorth i unigolion	38.0 miliwn
Physical Regeneration In North West Wales	Llywodraeth Cymru DESH Regeneration	Seilwaith – ffisegol	37.8 miliwn
A40 Penblewin to Slebech Park Improvements	Llywodraeth Cymru DEandT Transport	Seilwaith – ffisegol	37.2 miliwn
Arbed Phase 2 Convergence	Llywodraeth Cymru DESH Climate Change	Cymorth busnes	36.6 miliwn
LCRI	Prifysgol Caerdydd	Seilwaith – gwybodaeth	34.3 miliwn
Work Based Learning Strategies	Prifysgol Morgannwg	Cymorth i unigolion	34.0 miliwn
Knowledge Economy Skills Scholarships	Prifysgol Bangor	Cymorth i unigolion	33.0 miliwn
The Waterfront City	Dinas a Sir Abertawe	Seilwaith – ffisegol	32.2 miliwn
Blaenau Gwent Learning Zone	Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent	Seilwaith – gwybodaeth	31.8 miliwn

Tabl: Y 25 prosiect uchaf yn ôl gwerth ymrwymedig yn y rhaglen bresennol. Ffynhonnell WEFO Rhagfyr 2012.

Dyma fy mhrif gasgliadau o'r dadansoddiad hwn:

- Canran fach o gyfanswm Cynnyrch Mewnwladol Crynswth Cymru (tua 2%) a gwariant blynyddol (tua 1%) y mae'r Cronfeydd Strwythurol yn ei gynrychioli ac fe'u defnyddir i ychwanegu gwerth i ystod o weithgareddau tebyg i'r rhai a gefnogir gan wariant datblygu economaidd Llywodraeth Cymru ei hun.
- Mae'n debyg bod y ffordd mae gweithgareddau'n ymrannu rhwng y pedwar categori economaidd yn cynrychioli cydbwysedd synhwyrol ar gyfer economi Cymru.

- Ar lefel is-gontractwr (noddwr prosiect), mae presenoldeb y sector cyhoeddus a'r sector addysg uwch yn amlwg iawn yn y rhaglen; prin fod y sector preifat a'r trydydd sector yno o gwbl.
- Ar lefel y gadwyn gyflenwi, mae presenoldeb y sector preifat a'r trydydd sector yn amlwg iawn.
- Caiff y rhan fwyaf o gyfanswm buddsoddi'r rhaglen ei ganolbwyntio ar nifer cymharol fach o brosiectau strategol mawr. Mae nifer o'r rhain yn brosiectau sy'n cyflawni ymyriadau seilwaith allweddol ac mae nifer yn brosiectau sy'n cyflawni ymyriadau gwasanaeth allweddol. Yn llawer o'r ymyriadau gwasanaeth, byddai modd datblygu ac addasu proffil y gweithgaredd yng nghwrs y rhaglen mewn ymateb i angen.
- Bydd cyfanswm nifer y prosiectau yn y cylch presennol, 2007-2013 (tua 300), oddeutu 10% o'r nifer yng nghylch 2000-2006 gan gyflawni felly yr amcan allweddol i symleiddio a amlinellwyd ar gyfer y cylch presennol (Adran 5.7). Fodd bynnag, yn y prosiectau darparu gwasanaethau strategol mawr sydd â chadwyni cyflenwi hir o anghenraid, a phrosesau cyflenwi amlgydrannol, gwelir elfen o gymhlethdod o hyd.

4.1.2. Cynllunio

Ar ddechrau'r cylch presennol, un amcan allweddol oedd gwneud defnydd mwy strategol o'r Cronfeydd Strwythurol. Y bwriad oedd nodi'r meysydd hynny lle gallai'r Cronfeydd Strwythurol gyfrannu'n fwyaf effeithiol o ran cyswllt synergaid â strategaeth economaidd gyffredinol Llywodraeth Cymru. Y prif offerynnau a ddewiswyd i wneud hyn oedd y Fframweithiau Strategol. Datblygwyd y rhain drwy bartneriaeth yn cynnwys holl brif randdeiliaid y system CS. Eu rôl oedd darparu canllawiau i noddwyr prosiectau posibl ar y meysydd y dylid canolbwyntio gweithgaredd ynddynt ac i aseswyr prosiectau allu arfarnu pa un a oedd prosiectau'n addas ar gyfer derbyn cymorth. Yn ystod yr adolygiad, lleisiwyd sawl barn wahanol ynglŷn â pha mor effeithiol oedd y fframweithiau hyn yn ymarferol, gyda rhai cyfranwyr yn teimlo eu bod yn cynnig cyfarwyddyd defnyddiol mewn

rhai meysydd yn rhannau cynnar y rhaglen, tra teimlai eraill fod y gwerth hwn yn lleihau wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen ac wrth wynebu'r newidiadau mawr yn yr amgylchedd economaidd allanol o 2008 ymlaen. Roedd angen addasu'r ddwy raglen, a'u Fframweithiau Strategol cysylltiedig, yn sgil cyflwyno Rhaglen Adnewyddu'r Economi yn 2010 a Rhaglen Waith Llywodraeth y DU yn 2011.

Teimlai nifer o'r bobl y siaredais â nhw mai'r rheswm pam roedd Fframweithiau Strategol yn llai defnyddiol mewn rhai meysydd nag eraill oedd nad oeddynt yn ddigon manwl i allu gwahaniaethu'n eglur rhwng meysydd a gweithgareddau â blaenoriaeth ar gyfer derbyn cymorth ac eraill heb flaenoriaeth. Efallai bod hyn wedi'i gwneud yn anos cyflawni cydbwysedd priodol rhwng meini prawf cymhwysedd (risg cydymffurfio) a phriodoldeb economaidd (risg busnes) sydd yn ei dro'n gallu effeithio ar y cydbwysedd priodol rhwng patrwm gwariant ag iddo ffocws pendant a phatrwm gwariant wedi'i wasgaru'n ehangach (Adran 5.3). Yn bendant, ceir peth tystiolaeth ragarweiniol o'r data fod gwariant gwirioneddol, yn enwedig yn rhai o'r prosiectau darparu gwasanaeth, wedi tueddu tuag at batrwm gwasgaredig.

4.1.3. Dethol Prosiectau (A9, A10)

Yn unol â gofynion y Comisiwn Ewropeaidd, rhaid i broses dethol prosiectau unigol o fewn y system CS fod yn ddarostyngedig i broses asesu fanwl a thrylwyr er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau a gynigir yn gymwys ac yn debygol o gyfrannu'n briodol tuag at amcanion y rhaglen gyffredinol. Pwyllgor Monitro Rhaglenni (PMC) Cymru Gyfan sy'n cytuno ar y meini prawf ar gyfer dethol prosiectau a WEFO sy'n eu gweinyddu. Mae'r meini prawf dethol yn cynnwys asesiad o gymhwysedd prosiect i dderbyn cymorth, ynghyd â'i briodoldeb economaidd, a hwylusir gan y Fframweithiau Strategol. Yn y cylch hwn, cyflwynwyd proses mewn dau gam ar gyfer arfarnu, lle'r oedd datganiad cychwynol o ddiddordeb, o'i dderbyn, yn cael ei ddilyn gan gam datblygu cynllun busnes manwl yn arwain at

gymeradwyaeth derfynol mewn achosion priodol. Câi'r cam cynllunio busnes ei oruchwyllo o fewn WEFO gan Swyddog Datblygu Prosiectau dynodedig a fyddai'n ceisio parhau'n gysylltiedig â'r prosiect dros gyfnod ei ddatblygiad ac i mewn i'r cam gweithredu gyda'r nod o sicrhau cysondeb (ymagwedd "o'r crud i'r bedd"). Ochr yn ochr â'r broses arfarnu, bydd noddwyr prosiectau posibl yn derbyn amrywiaeth o ganllawiau technegol i'w cynorthwyo i ymdopi â materion cymhwysedd a chydymffurfio, er enghraifft. Canlyniad y broses arfarnu, os yw prosiect yn llwyddiannus, yw cytuno ar gontract cyfreithiol rhwng WEFO, fel yr Awdurdod Rheoli, a'r noddwr yn amlinellu ymrwymadau'r noddwr mewn perthynas â chyrraedd targedau rhifiadol ac mewn perthynas â chydymffurfiaeth.

Gwelais fod noddwyr prosiectau'n deall y broses hon yn dda a bod cefnogaeth gyffredinol, mewn egwyddor, i'r newid gan WEFO i'r broses ymgeisio mewn dau gam a chyflwyno'r system Swyddog Datblygu Prosiectau. Er hynny, lleisiwyd sawl pryder ynglŷn â'r ffordd yr oedd y broses yn gweithredu'n ymarferol. Roedd dwy brif thema i'r pryderon hyn. Yn gyntaf, yr amser y mae'n ei gymryd i brosiectau symud ymlaen drwy'r system ac yn ail, argaeledd a chysondeb cyngor a chanllawiau a roddir i noddwyr prosiectau. Er mwyn ceisio deall y materion hyn yn well, defnyddiais nifer o brosiectau fel astudiaethau achos a, gyda'r noddwyr ac aelodau'r timau arfarnu WEFO perthnasol, dilynais eu datblygiad cronolegol drwy'r system, gan drafod y materion a oedd wedi codi a sut y cawsant eu trin. Roedd nifer o themâu yn codi'n gyson:

- Yr hyn oedd i gyfrif yn bennaf am yr amser a gymerai i brosiectau symud drwy'r broses arfarnu oedd yr amser a dreuliwyd gyda noddwyr prosiectau ar gynlluniau busnes nifer o brosiectau oedd yn cael eu diwygio'n helaeth.
- Roedd nifer o'r materion anos a gododd yn ymwneud â chydymffurfiaeth, er enghraifft, materion yn ymwneud â chymorth gwladwriaethol, caffael, cymhwysedd gweithgareddau neu gyfranogwyr penodol ac roedd datrys y rhain weithiau'n ychwanegu at yr amser a ai heibio.

- Yng nghamau cynnar y rhaglen, roedd llai o rai mathau o ganllawiau ar gael nag ar gamau diweddarach.
- Roedd profiad o faterion a allai godi yn ystod y broses arfarnu a sut i ymdrin â nhw yn cynyddu wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen.

Gwelais dystiolaeth o un mater generig penodol a effeithiai ar nifer o'r prosiectau ac a allai fod wedi arwain at beth o'r camddealltwriaeth ynglŷn â darparu canllawiau. Lluniwyd y broses arfarnu prosiectau i fod yn gydweithredol ac mae awydd cyffredin i weld canlyniad ar ffurf prosiect y mae ei weithgaredd yn ychwanegu gwerth economaidd. Fodd bynnag, mae'r canlyniad hefyd yn gontract ffurfiol ag ymrwymïadau a rhwymedigaethau caeth ynghlwm wrtho. Mae'n bwysig deall felly lle mae'r llinell rhwng canllawiau y mae'n briodol i WEFO eu darparu a chynghor cyfreithiol sy'n rhaid i bartïon i gontract ei geisio'n annibynnol.

4.1.4. Cyflawni a Chydymffurfio (A6)

Yn ystod cam gweithredu'r prosiectau, mae gan noddwyr ddwy set o gyfrifoldebau: yn gyntaf, cyrraedd targedau rhifiadol ac yn ail, cyflawni ystod o ymrwymïadau cydymffurfio. Yn ystod yr ail gam, caiff noddwyr eu harchwilio drwy weithgaredd amrywiol gan y Comisiwn Ewropeaidd a Chymru'n fewnol a bydd gofyn cynnal nifer o werthusiadau arnynt.

Fel y nodais uchod (Adran 3.1), nododd y rhan fwyaf o noddwyr eu bod wedi cael trafferthion wrth geisio bodloni'r gofynion cydymffurfio. Yn bennaf, roedd hyn yn ymwneud â faint o ymdrech oedd ei hangen yn hytrach nag anhawster cynhenid, er ei bod yn amlwg bod rhai prosiectau wedi wynebu anawsterau yng nghamau cynnar y rhaglen mewn perthynas â rheoliadau caffael. Un sylw diddorol, nas rhagwelwyd o bosibl, oedd bod y nifer mawr o sefydliadau sector cyhoeddus ar lefel noddwyr prosiectau wedi creu angen i gynnal archwiliadau ychwanegol ar brosiectau yn sgil gofynion llywodraethu lleol eu rhiant-sefydliadau eu hunain.

O ran cyrraedd targedau rhifiadol, soniodd rhai prosiectau iddynt fod yn rhy optimistaidd wrth asesu'r cyflymder y byddai prosiectau'n dechrau creu gweithgaredd. Credaf mai un o'r rhesymau am hyn oedd bod nifer o brosiectau'n symud yn syth o gymeradwyaeth i weithredu heb gyfnod paratoi ffurfiol er mwyn i WEFO a noddwyr prosiectau allu sicrhau bod prosesau rheoli prosiect ac adnoddau priodol yn eu lle a bod canllawiau, rheoliadau, dulliau cofnodi data ac adrodd wedi'u dehongli'n gyson. Gall oedi cynnar heb ei ddatrys yn y gwaith o gyflawni prosiect fod yn anodd ei unioni yn nes ymlaen wrth gwrs, a gall arwain at ddadneilltuo cyllid.

Hefyd, soniodd rhai prosiectau, yn enwedig prosiectau'n ymwneud â gweithgaredd darparu gwasanaethau, eu bod wedi cael trafferth dod o hyd i gyfranogwyr priodol ar gyfer eu prosiectau a phennu pa gyfranogwyr a oedd yn flaenoriaethau o safbwynt economaidd. Roedd rhai hefyd yn gweld eu hunain yn cystadlu i bob pwrpas â phrosiectau eraill am yr un grŵp o gyfranogwyr.

Fodd bynnag, wrth i ni nesáu at ddiwedd y cylch presennol, mae data'n dangos cynnydd da tuag at gyrraedd targedau rhifiadol a chyflawni cydymffurfiaeth. Mae llawer o noddwyr prosiectau'n dweud eu bod wedi cael profiad gwerthfawr wrth gyflawni eu hymrwymadau cydymffurfio a'u bod bellach mewn sefyllfa dda i addasu cydbwysedd eu gweithgaredd mewn cylch yn y dyfodol i roi mwy o ffocws ar dwf ac effaith economaidd.

4.1.5. Casgliadau

Wrth i ni nesáu at ddechrau'r cylch nesaf o Gronfeydd Strwythurol, credaf fod gennym ddarlun cliriach o lle mae'r cylch presennol wedi'n gosod ni, ac yn bwysicach, pam. Gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon wrth nesáu at gylch yn y dyfodol gyda mwy o optimistaeth, wedi'i dymheru, gobeithio, â dealltwriaeth o'r anawsterau a'r bygythion sy'n parhau. Dyma fy mhrif gasgliadau:

- Mae proses gyflenwi sy'n cydymffurfio'n weithredol yn ei lle ac mae'n cynnwys lefel sylweddol o brofiad ac aeddfedrwydd.
- Gellir gwella'r broses hon yn sylweddol drwy ddarparu EPF mwy cadarn ar y cam cynllunio a thrwy barhau i gryfhau systemau trin a rheoli i sicrhau eu bod yn cyflawni yn erbyn y cynlluniau hynny.
- Mae nifer o weithgareddau yn y system CS bresennol sy'n gallu pontio i'r cylch nesaf o Gronfeydd Strwythurol yn eithaf di-dor a ffurfio gweithgareddau hanfodol er mwyn darparu momentwm cychwynol.

4.2. Cyfleoedd

4.2.1. Cynllunio (A1, A2, A5)

O ran cynllunio, y prif gasgliadau sy'n codi o'r gwaith a ddisgrifiais uchod yw bod dull o weithredu drwy ddefnyddio fframwaith blaenoriaethau, fel yn y cylch presennol, yn parhau'n ddilys, ond y dylid ei fynegi'n fwy manwl, ei integreiddio'n dda â strategaeth economaidd Llywodraeth Cymru yn gyffredinol, a dylai bod yn ddigon hyblyg i allu ei ddiweddarau yn ystod y rhaglen yn sgil newid yn yr amgylchiadau. Mae'r data yn Adran 4.1.1 yn dangos bod gweithgaredd yng nghylch presennol y Cronfeydd Strwythurol wedi canolbwyntio ar bedair prif elfen sy'n allweddol i gyflawni twf economaidd fel y gwelir yn y tabl isod:

Cymorth Cronfeydd Strwythurol i Weithgaredd Economaid Allweddol

Seilwaith Gwybodaeth	13%
Cymorth Busnes	16%
Darpariaeth Sgiliau	33%
Seilwaith Ffisegol	38%

Diagram: Y canran o cymorth Cronfeydd Strwythurol wedi'i ymrwmo i bob Gweithgaredd Economaidd Allweddol.

Ar y lefel genedlaethol, bydd gweithgaredd datblygu economaidd arall Llywodraeth Cymru yn cael ei gategoreiddio yn yr un modd ond bydd hefyd yn ystyried y meysydd nad ydynt yn feysydd cydgyfeirio, yn edrych yn ehangach ar rôl cwmnïau angori a sectorau allweddol, a bydd yn ystyried cysylltiadau cenedlaethol a rhyngwladol economi Cymru. Byddai hyn wedyn yn ei gwneud hi'n bosibl ystyried rôl bosibl y Cronfeydd Strwythurol yng nghyd-destun yr economi ehangach gan arwain at ddadansoddiad o'r meysydd lle gellir manteisio i'r eithaf ar effaith synergaid y cronfeydd hyn. Yn fwyaf arbennig, credaf y dylai'r broses hon ganolbwyntio ar nodi'r sbardunau galw allweddol a allai ddarparu cyfleoedd twf yn ystod y cylch nesaf.

Yn y cyfnod cyn dechrau'r cylch nesaf felly, credaf ei bod hi'n bwysig i WEFO a Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r trafodaethau sydd eisoes ar y gweill i gynnal y math o ddadansoddiad a amlinellwyd uchod gyda'r bwriad o gynhyrchu, a chyhoeddi, EPF digon manwl i nodi'r meysydd lle gallai'r

Cronfeydd Strwythurol fod yn fwyaf effeithiol a darparu sail ddefnyddiol ar gyfer dethol prosiectau. Gan y bydd llawer o'r sbardunau galw yn benodol i ardal, credaf hefyd y dylai WEFO a Llywodraeth Cymru geisio mewnbwn o strwythurau cynllunio rhanbarthol i'r broses hon. Mae fy nhrafodaethau yn ystod yr adolygiad wedi dynodi bod y strwythurau hyn yn datblygu ledled Cymru.

Byddai cyhoeddi'r EPF yn rhoi cyfle i noddwyr prosiectau posibl ystyried addasrwydd eu syniadau eu hunain ar gyfer eu cynnwys yn y cylch nesaf a'r cyfle i ddiwygio'r syniadau hyn os yn briodol. Gellid cynnal trafodaethau anffurfiol â WEFO hefyd yn ystod y cyfnod hwn, ynghyd â thrafodaethau archwiliadol rhwng partneriaid posibl ynglŷn â chyflawni prosiectau. Gallai presenoldeb fframwaith polisi manylach nag oedd ar gael yn y cylch presennol helpu i wella gwerth y trafodaethau hyn.

4.2.2. Dethol Prosiectau (A3, A4)

Credaf fod y maes dethol prosiectau yn cynnig cryn dipyn o gyfle ar gyfer creu portffolio o weithgareddau mwy effeithiol yn economaidd yn y cylch nesaf. Mae'r cyfle hwn yn deillio o ddatblygu EPF gwell drwy'r profiad o gyflawni rhaglenni a enillwyd yn y cylch presennol, yn enwedig yn y prosiectau strategol mwy o faint. Mae enghreifftiau o'r profiad hwn yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r prosiectau strategol mwy o faint yn y cylch presennol yn cynnwys enghreifftiau o'r pedwar gweithgaredd economaidd allweddol, a lle caiff effeithiau posibl y gweithgareddau hyn yn y cylch nesaf eu blaenoriaethu yn yr EPF, gallent greu sail ar gyfer prosiectau cychwynnol hanfodol.
- Gall profiad a enillwyd yn y cylch presennol ar weithgareddau cyflawni'r prosiectau (er enghraifft, allbynnau ffisegol neu allbynnau gwasanaethau) helpu i nodi'r prif elfennau risg sy'n gysylltiedig â phob math o weithgaredd a gall hyn ddarparu mewnbwn gwerthfawr ar gyfer arfarnu.

- Gall profiad a gwerthuso prosiectau allweddol yn y cylch presennol ddarparu dangosyddion ar gyfer ffactorau llwyddiant allweddol a gall y rhain hefyd ddod yn feini prawf dethol allweddol wrth arfarnu.

Mewn system rheoli portffolio aeddfed, fel nodir yn Adran 5.2, mae cyfuniad o wybodaeth dda am y farchnad sy'n cael ei gwasanaethu a'i sbardunau galw, ynghyd â dealltwriaeth dda o dderbyniad cynnyrch a gwasanaethau newydd o fewn y farchnad honno, yn gwneud y gwaith o dethol prosiectau newydd yn haws drwy greu proses hidlo effeithiol fel y gwelir isod.




Diagram: Y broses lefel uchel ar gyfer dethol prosiect mewn amgylchedd aeddfed.

Yng nghylch nesaf y Cronfeydd Strwythurol, gallai EPF effeithiol ddarparu'r hyn sy'n cyfateb i wybodaeth am y farchnad a gall y profiad a enillwyd yn y cylch presennol ddarparu'r hyn sy'n cyfateb i adborth o'r farchnad.

Byddai hyn yn creu cyfle i sefydlu system arfarnu prosiect ag iddi'r amcanion a'r nodweddion canlynol:

- Gallai anelu at sefydlu'r prif brosiectau allweddol a fydd yn sail i'r rhaglen yn fuan yn y broses. Mae'n bosibl y bydd y prosiectau hyn yn debyg o ran eu proffil gweithgaredd i lawer o rai eraill yn y cylch presennol a gallai olygu bod y strwythurau cyflawni'n debyg.
- Yna gallai arfarnu prosiectau yn nes ymlaen yn y rhaglen ganolbwyntio ar lenwi bylchau ac ymateb i newidiadau yn y sbardunau galw. Gallai hefyd gynnwys dulliau mwy arloesol o weithredu yn cynnwys offerynnau ariannol a chomisiynu a gallu goddef proffil risg uwch yn gyffredinol o ystyried y gellid disgwyl i broffil risg y prosiectau hanfodol fod yn gymharol isel.
- Efallai y gellid sicrhau ymraniad gwell rhwng risg busnes a risg cydymffurfio drwy proses mewn dau gam lle caiff cymhwysedd ei weld yng nghyd-destun swyddogaeth porth a chyfraniad tuag at yr EPF a'r portffolio cyffredinol ar sail blaenoriaeth.
- Hefyd, byddai profiad a enillwyd yn y cylch presennol yn ei gwneud hi'n bosibl rhoi mwy o ystyriaeth wrth asesu i faterion sy'n gysylltiedig â chyflawni.

Mae'r cylch presennol wedi arwain hefyd at gasglu cryn dipyn o brofiad yn WEFO a'r system CS ehangach y gellid ei gasglu ynghyd i greu sail fwy effeithiol ar gyfer darparu cyngor a chanllawiau i brosiectau. Credaf fod angen i WEFO benderfynu ar y ffordd orau o wneud hyn yng ngoleuni ei strwythurau cyfundrefnol ei hun. Fodd bynnag, byddai enghreifftiau o fannau eraill yn cynnwys sefydlu cronfeydd data y gellid eu defnyddio fel ffynonellau cyfeirio i helpu i ddatrys problemau, cyfleoedd i gyfnewid a lledaenu arferion da, a sefydlu prosesau mentora gan fanteisio ar brofiad unigolion allweddol.

4.2.3. Cyflawni a Chydymffurfio (A6, A11)

Fel ym maes dethol prosiectau, credaf fod modd gweld cyfleoedd ar gyfer gwella ac addasu cydbwysedd ym maes cydymffurfio a chyflawni a allai arwain at ganlyniadau economaidd mwy effeithiol. Fodd bynnag, mae'r addasiadau gweithredol penodol a allai greu'r manteision hyn yn anos i'w nodi yn y maes hwn ac mae fy argymhellion yn cadw hyn mewn cof.

Y rheswm am hyn ar un lefel yw bod perfformiad Cymru o ran defnyddio Cronfeydd Strwythurol eisoes yn llwyddiannus. Ceir lefel uchel o gydymffurfiaeth; mae gwariant yn mynd rhagddo yn agos at y raddfa sy'n angenrheidiol a thargedau rhifiadol yn cael eu cyrraedd i raddau helaeth. Er hynny, fel y nodais mewn man arall, lleisiwyd cryn dipyn o bryder ynglŷn â'r maes hwn yn yr adolygiad drwyddo draw gan bobl sy'n gweithio ar gyflawni prosiectau.

Credaf fod y rhesymau dros y gwrth-ddweud ymddangosiadol hwn yn ddeublyg. Yn gyntaf, mae rhannau cyflawni a chydymffurfio'r system, yn enwedig mewn prosiectau darparu gwasanaethau, o reidrwydd yn integredig iawn, ac yn ail, unwaith eto fel y nodais mewn man arall, ceir safbwyntiau gwahanol o fewn y system CS ynglŷn â'r hyn y mae cyflawni yn ei olygu mewn gwirionedd.

Y ddwy thema allweddol sy'n ymddangos yn y maes hwn felly yw'r cydbwysedd priodol rhwng y gweithgareddau cyflawni a chydymffurfio eu hunain ac a yw'r prosesau cyflawni wedi cael eu galluogi ddigon a'u cefnogi'n briodol. O ran egwyddor, dylai'r profiad a enillwyd yn ystod y cylch presennol hwyluso proses fwy soffistigedig o asesu risg i allu sicrhau bod y gweithgaredd archwilio a gwerthuso yn parhau'n gymesur. Gwelais ddealltwriaeth ynglŷn â hyn ar bob lefel yn y system CS ynghyd ag awydd i'w chymhwyso. Mae'n bwysig cydnabod, fodd bynnag, fod Cronfeydd Strwythurol yn faes lle ystyrir bod arddangos lefelau uchel o gydymffurfiaeth yn flaenoriaeth, ac fel y cyfryw, yr ymdrech barhaus i gyflawni cydbwysedd a chymesuredd yw ffocws fy argymhellion.

Dwy enghraifft sydd wedi ymddangos a allai fod yn ddefnyddiol yn hyn o beth yw adolygu archwiliadau ffurfiol er mwyn diddymu dyblygu diangen a choladu a lledaenu arferion da rhwng prosiectau.

O ran cyflawni a phrosesau cyflawni, roedd tri maes lle'r oedd y themâu a'r cyfleoedd allweddol yn ymddangos:

- **Diffiniadau.** Mae'r angen i gael diffiniadau o effaith economaidd sy'n ddigon manwl i ddarparu mewnbwn ystyrion i'r gweithgaredd dethol prosiectau wedi cael sylw yn fy mhrif argymhelliad. Fodd bynnag, mae'n allweddol hefyd er mwyn darparu cyfeiriad i gyflawni prosiectau ac i ddarparu modd o sicrhau cydbwysedd rhwng cyrraedd targedau rhifiadol a chyflawni canlyniadau dymunol. Credaf y bydd EPF effeithiol ynghyd â phroses adborth well drwy gyfrwng strwythurau rhanbarthol yn ddefnyddiol yn hyn o beth.
- **Mathau o weithgaredd cyflawni.** Yn amlwg, bydd anghenion gwahanol o ran trin a rheoli gan brosiectau sy'n cyflawni canlyniadau ffisegol (e.e. seilwaith) a phrosiectau sy'n cyflenwi canlyniadau gwasanaeth (e.e. cymorth busnes a chymorth i unigolion). Mae rhai prosiectau darparu gwasanaethau yn y cylch presennol wedi cael trafferthion o ran cydgysylltiad effeithiol, osgoi dyblygu ac ati. Rwyf wedi arsylwi gwaith sydd ar y gweill yn Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael â'r materion hyn a chredaf ei bod hi'n bwysig iddynt barhau. Mae gan strwythurau rhanbarthol rôl werthfawr hefyd o ran eu gwybodaeth leol. Gydag EPF sy'n gallu darparu canllawiau gwell ar gyfer y gweithgareddau blaenoriaeth uchel (drwy eu cysylltiad â'r sbardunau galw er enghraifft) credaf fod cyfle i sicrhau bod cydbwysedd gwell rhwng y targedau rhifiadol a chanlyniadau economaidd yn y cylch nesaf.
- **Cymorth a ddarperir.** Mae darparu cymorth i brosiectau yng nghamau cynnar y cam cyflawni yn elfen allweddol mewn llawer o brosiectau un prif gontractwr. Bwriedir i'r gweithgaredd hwn atal problemau rhag digwydd a'u cywiro cyn gynted ag y bo modd ac mewn dull mor

syml ag y bo modd lle byddant yn digwydd. Drwy'r system CS, gwelais werthfawrogiad y gallai'r agwedd hon gyflawni mwy o effeithlonrwydd yng ngham cyflawni'r cylch nesaf a gwelais enghreifftiau calonogol o'i ddefnydd yn y cylch presennol ac mewn rhanbarthau eraill. Credaf fod angen gwaith pellach, fodd bynnag, i ystyried sut y gellid ymgorffori'r agwedd hon mewn cylch yn y dyfodol gan gynnal y cydbwysedd priodol â gofynion rheoleiddio a rôl WEFO fel Awdurdod Rheoli.

4.2.4. Cyfleoedd Llywodraethu ac Integreiddio (A10, A12, A13, A14)

Mewn man arall yn yr adroddiad hwn, eglurais mai un o fy amcanion allweddol yn yr adolygiad oedd mynd ati'n bragmataidd i geisio nodi ffyrdd o gyflawni canlyniadau gwell mewn cylch CS yn y dyfodol heb golli golwg ar y budd a ddaw i'r canlyniadau cyffredinol o greu momentwm cynnar. Mae addasu ac ail-gydbwysu strwythurau sy'n bodoli a cheisio lleihau aflonyddu diangen wedi bod yn ystyriaeth bwysig felly.

Ystyriais hynny hefyd yng nghyd-destun llywodraethu ac integreiddio ffrydiau ariannu a chredaf fod tri maes sy'n haeddu sylw.

Mae'r cyntaf yn ymwneud â safle WEFO. O safbwynt rheoli, mae'r sefydliad ar hyn o bryd o dan reolaeth yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (BETS). Mae BETS a'r Adran Addysg a Sgiliau (DfES) yn noddwyr prosiectau mawr (isgontractwyr) o fewn y system CS. Ymdrechais i edrych ar y system CS cyn belled ag y bo modd mewn cymhariaeth â, ac fel cydran o, economi ehangach Cymru ac ar y Cronfeydd Strwythurol eu hunain fel un o'r ffynonellau cyllid sydd ar gael y gall economi Cymru bwysu arni. Mae'r ystyriaeth hon yn codi cwestiwn anorfod ynglŷn ag a yw WEFO yn y safle gorau y tu mewn i un o'r prif adrannau noddwr / buddiolwr yn Llywodraeth Cymru neu a ddylid ei ail-leoli fel rhan o'r swyddogaeth reoli cyllid ganolog. Mae'r farn hon yn cael ei hategu yn fy meddwl gan

gyfrifoldeb yr adran honno dros y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a'r nifer o drafodaethau sydd ar y gweill ganddi ar gydymffurfio a llywodraethu, pob un ohonynt yn berthnasol i'r system CS. Yn ei dro, felly, gallai fod yn briodol ailystyried safle WEFO o fewn Llywodraeth Cymru.

Mae fy ail ystyriaeth yn ymwneud â'r PMC Cymru Gyfan. Corff statudol o fewn y system CS yw'r PMC ag iddo rôl llywodraethu. Mae'r rôl hon yn arbennig o bwysig ar gychwyn cylch newydd o Gronfeydd Strwythurol pan fydd yn rhaid i'r PMC gymeradwyo elfennau o strwythur rhaglenni a methodoleg arfarnu prosiectau. Wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen, mae rôl y PMC yn cynnwys elfen gynyddol o'r gwaith monitro. Mae'r PMC yn gorff mawr sydd wedi cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y rhaglen yn y cylch presennol, dair neu bedair gwaith y flwyddyn. Mae ei agendâu i raddau helaeth wedi canolbwyntio ar gyflawni ei ddyletswyddau statudol. Credaf y bydd ei rôl oruchwyllo yn cael ei gwella yn y cylch nesaf o ganlyniad i rai o fy argymhellion, yn enwedig sefydlu'r EPF a darparu lefelau uwch o ddata canolraddol. Bydd hyn, mi gredaf, yn rhoi gwybodaeth reoli well i'r PMC ar amcanion y rhaglen ac ar ei gynnydd tuag at eu cyflawni. Y tu hwnt i hynny, mae'n debygol y byddai unrhyw newidiadau i rôl y PMC yn galw am fwy o ymrwymiad amser ar ran ei aelodau. Fodd bynnag, wrth i ni nesáu at gylch CS newydd, credaf y byddai'n briodol i'r PMC ystyried unrhyw newidiadau y byddai'n dymuno eu gweld i'w rôl o fewn terfynau ei ymrwymadau.

I gloi, dylwn sôn am integreiddiad posibl ffrydiau ariannu eraill â chydannau cyfredol y system CS, ERDF ac ESF. Mae cyfleoedd amlwg yn bodoli yn y maes hwn drwy integreiddiad posibl y cronfeydd Datblygu Gwledig er enghraifft, a thrwy annog ystyriaeth o'r ffyrdd y gellir defnyddio'r Cronfeydd Strwythurol yn synergaid ochr yn ochr â Horizon 2020. Mae synergedd wedi bod yn thema allweddol yn yr adroddiad hwn felly dylid croesawu'r cyfleoedd hyn a manteisio arnynt yn fy marn i, ac yn wir, mae'n amlwg fod trafodaethau ar hyd y trywydd hwn eisoes ar y gweill. Cyn belled ag y cymerir gofal priodol mewn perthynas ag unrhyw oedi a allai godi drwy integreiddio, credaf y dylai'r gwaith hwn barhau.

5. Deunydd Ategol

Cyfres o ddarnau trafod yw'r deunydd yn yr adran hon a fydd yn cynnig rhai safbwyntiau gwahanol ynghylch y defnydd o Gronfeydd Strwythurol. Roedd rhai ohonynt yn ddefnyddiol ar gyfer fy nhrefnadaethau yn ystod yr adolygiad ac rwy'n gobeithio y byddant o ddefnydd i bobl eraill hefyd. Ac eithrio lle rwyf wedi gwneud argymhellion penodol, nid wyf yn bwriadu awgrymu bod gweithdrefnau gweithredol neu ddulliau gweithio a grybwyllir yn y deunydd yn rhai y dylid eu gweithredu neu y gellid eu gweithredu o fewn system y CS.

5.1. Y Model Un Contractwr

Mae cannoedd o weithgareddau unigol (prosiectau) a fydd yn defnyddio tua £3 biliwn o gyllid dros saith mlynedd wedi'u creu yn ystod cylch presennol y Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru. Bydd y rhain yn cyflawni manteision economaidd amrywiol drwy filoedd o weithgareddau ac ymyriadau unigol. Ar un lefel mae'n system annibynnol ond mae hefyd yn gweithredu o fewn amgylchedd allanol (Fframwaith rheoleiddio'r Comisiwn Ewropeaidd, y tirlun gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru) sy'n anochel yn ei lywio ac yn dylanwadu arni. Gall fod yn anodd, fodd bynnag, i sylwedydd o'r tu allan ddeall y strwythurau, y sbardunau a'r mecanweithiau allweddol sy'n ei rheoli. O'r herwydd, bernais y byddai'n ddefnyddiol sefydlu modelau a fyddai'n sicrhau gwell dealltwriaeth o'r rhyngweithio o fewn system y Cronfeydd Strwythurol ac effaith dylanwadau allanol. Y bwriad yw ystyried sefyllfa system y Cronfeydd Strwythurol erbyn canol 2012 a hefyd ystyried sut y mae wedi cyrraedd y pwynt hwn a pham. O gael eu sefydlu'n briodol byddai'r modelau hefyd yn ei gwneud hi'n bosibl i brofi damcaniaethau ar gyfer gwella.

Ar ddechrau'r adolygiad es ati i sefydlu dau fath o fodel: model data yn dangos allbynnau'r system ynghyd â model gweithredol yn dangos y

mecanweithiau a oedd yn cyflawni'r allbynnau hynny. Ymdrinnir â'r model data yn Adran 5.5 ac ymdrinnir â'r model gweithredol yn yr adran hon.

Mae'r model yn seiliedig ar brosiect arferol ag un contractwr, lle y mae client yn dewis prif gontractwr ar gyfer gofynion prosiect penodol. Mae'r prif gontractwr yn cyflogi is-gontractwyr ar gyfer cyflawni elfennau unigol o'r prosiect cyffredinol a gallai'r is-gontractwyr hyn, yn eu tro, weithredu drwy gadwyn gyflenwi.

Os caiff y model hwn ei ddefnyddio ar gyfer system y Cronfeydd Strwythurol, WEFO fydd y prif gontractwr a bydd yn ymdrin â gwahanol is-gontractwyr (noddwyr prosiect) drwy broses ymgeisio ac arfarnu yn bennaf. Bydd hyn yn arwain at ddyfarnu grant a fydd yn amodol ar wahanol ymrwymadau contract. Yn dilyn hyn bydd noddwyr prosiect yn sefydlu cadwyni cyflenwi, lle y bo'n briodol, drwy brosesau caffael ffurfiol ar gyfer y sector cyhoeddus. Caiff contractau masnachol safonol eu creu o ganlyniad i hyn.

Bernir mai'r meysydd allweddol sy'n berthnasol i'r adolygiad sy'n deillio o'r model hwn yw:

1. Pennu'r Cleient -Bydd gan brosiect un contractwr gleient unigol gan amlaf sy'n diffinio amcanion y prosiect, yn darparu cyllid ac sydd â budd sefydliadol cadarn mewn sicrhau bod y prosiect yn llwyddo. O safbwynt y Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru mae Llywodraeth Cymru yn cynnig mewnbwn fel cleient (fel gwarchodwr yr economi) ac mae'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd yn cynnig mewnbwn fel darparwr y cyllid cychwynnol. Wrth gwrs, y Comisiwn Ewropeaidd yw'r partner contract a WEFO yw'r Awdurdod Rheoli.
2. Y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a WEFO - Mae gan Lywodraeth Cymru berthynas â WEFO fel cleient ac is-gontractwr, sy'n anarferol ar gyfer prosiectau un contractwr. Mae'r berthynas ar lefel is-gontractwr yn bodoli'n bennaf â dwy adran o fewn Llywodraeth Cymru sef BETS a'r Adran Addysg a Sgiliau (DfES).

3. Cydbwysu Gwariant a Gweithgarwch - O safbwynt system y Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru, byddai prosiect un contractwr yn dangos cyfran fwy o gyfanswm y gweithgarwch a chyfanswm y gwariant o fewn y cleient a'r prif gontractwr. Byddai pwyslais ar waith paratoi (cynllunio, dylunio, manylebau prosiect, gofynion is-gontractwyr) cyn gweithredu'r prosiect a chymorth ar ôl gweithredu, ac yn arbennig yng nghanau cynnar y prosiect.
4. Dewis is-gontractwyr - Bydd prosiectau un contractwr gan amlaf yn canolbwyntio ar ddau brif faes wrth ddewis is-gontractwyr. Yn gyntaf, gofynion manwl y prosiect a gallu'r is-gontractwyr i'w bodloni ac yn ail brofiad yr is-gontractwyr o gyflawni prosiectau tebyg. Mae'r broses ddethol gan amlaf yn gymharol fyr ac fel rheol yn canolbwyntio ar ystyriaethau ymarferol gan fod prosesau arfarnu yn treulio cryn amser yn sefydlu'r meini prawf dethol a fformatau'r contract.
5. Cynorthwyo, monitro ac archwilio is-gontractwyr - Mae'r budd sefydliadol y mae cleient yn ei gyfrannu at brosiect un contractwr yn gyrru'r berthynas â'r prif gontractwr a'r is-gontractwyr sy'n ceisio creu cyd-ddiddordeb a chymhelliant wrth lwyddo. Ystyr llwyddiant yn y cyd-destun hwnnw yw cyflawni'r canlyniadau dymunol a dilyn y broses briodol. Mae prosesau asesu risg a dyrannu yn ystyried hyn ac yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng y perthnasau ffurfiol dan gontract a'r perthnasau cymorth anffurfiol fel eu bod yn datblygu yn ystod oes y prosiect. O ddefnyddio'r cysyniad o foronen a ffon, camau cyntaf y prosiect fyddai'r foronen a'r camau diweddarach fyddai'r ffon.

5.2. Rheoli Portffolio (A8)

Mae'r broses o fuddsoddi - sef ymrwymo cyllid heddiw gan ragweld canlyniad dymunol yn nes ymlaen yn y dyfodol - yn broses lle y mae'r gallu i reoli risg yn hollbwysig. Eto i gyd, mae deall a derbyn nad oes modd gwaredu risg yn llwyr yr un mor bwysig. Pan fydd y buddsoddiad dan sylw yn

ddatblygu economaidd a ariennir yn gyhoeddus gall gwrthdaro posibl godi rhwng y rhwymedigaethau statudol sydd ynghlwm wrth y defnydd o gyllid cyhoeddus a'r ffaith bod risg ynghlwm wrth fuddsoddiadau. Er enghraifft, sut y gellir yn ymarferol ddangos "gwerth gorau" wrth ddefnyddio cyllid cyhoeddus mewn amgylchedd lle y mae'n anodd cyflawni sail tystiolaeth ar gyfer "gwerth gorau" yn unol â diffiniad caeth y term hwnnw.

Mae'r broblem hon yn bodoli o fewn amgylcheddau'r sector preifat, er mewn modd llai amlwg efallai, a'r ateb a ffefrir yw rhyw ffurf ar reoli portffolio. Mae hyn yn cynnwys diffinio amcan cyffredinol, sef enillion ar fuddsoddiad gan amlaf, a gyflawnir drwy wahanol weithgareddau sy'n ceisio cyflawni cyfuniad o synergedd mewnol a lledaenu risg.

Credaf fod y dull hwn yn gweddu'n dda i'r system CS yng Nghymru oherwydd mae'n cydnabod y ffaith bod portffolio o tua 300 o brosiectau unigol o fewn y cylch presennol sydd oll yn ceisio cyflawni twf o fewn economi Cymru. Mae dull rheoli portffolio eisoes ar waith o safbwynt hynny. Yn bwysicaf oll, fodd bynnag, mae'n creu cyfle i addasu i gydbwysedd mwy priodol o safbwynt ein dull o reoli risg a dethol prosiectau. Y rheswm am hyn yw:

- Mae dull portffolio yn derbyn na fydd rhai prosiectau mor llwyddiannus ag y gobeithiwyd, er gwaethaf ymdrechion gorau pawb perthnasol. Bydd rhai prosiectau yn cyflawni mwy na'r disgwyl ond y peth pwysig yw a fodlonwyd y meini prawf cyffredinol ynghylch enillion ar fuddsoddiad ar draws y portffolio. Yn gyffredinol, nid yw'r dull yn ystyried ai'r prosiect unigol yw'r peth "gorau" y gellid ei wneud, eithr yn hytrach mae'n ystyried a yw prosiect yn weithgaredd "buddiol" yng nghyd-destun yr amcan cyffredinol. Y farn yw y gellir cyfiawnhau buddsoddi mewn prosiect buddiol os yw'n sicrhau enillion digonol ar fuddsoddiad. Credaf ein bod yng Nghymru wedi tueddu i ddehongli'r amcan gwerth gorau yn rhy lythrennol a'n bod o'r herwydd wedi gwaredu risg prosiectau i'r graddau y mae'n anodd ei gyflawni wrth ymwneud â datblygu economaidd.

- Gan fod y dull portffolio yn canolbwyntio ar allbwn cyffredinol rhaglenni yn hytrach nag ar allbwn prosiectau unigol, derbynnir y bydd perfformiad prosiectau unigol yn amrywio ar draws y portffolio. Cydnabyddir hefyd y gall prosiect fod yn fwy gwerthfawr yn sgil ei gyfraniad synergeddol i'r portffolio yn hytrach nag fel gweithgaredd annibynnol.
- Mae systemau rheoli portffolio yn dueddol o ganolbwyntio ar fathau penodol o gyfleoedd neu ar farchnadoedd penodol. Diben hyn yw defnyddio'r profiad a enillir o'r marchnadoedd hynny fel sail i benderfyniadau ynghylch buddsoddi. Mae hyn gan amlaf yn golygu ennyn dealltwriaeth o anghenion y farchnad ac o ymateb y farchnad i nwyddau a gwasanaethau. Credaf fod y system CS yn adlewyrchu'r dull hwn a bod cyfle i ddefnyddio'r profiad a enillir yn y cylch presennol o'r herwydd.

5.3. Mekanweithiau Rhagosod

Er mwyn gallu deall unrhyw sefydliad neu weithrediad mae'n bwysig deall yr amgylchedd y mae'n gweithio ynddo ac yn benodol sut y mae'r amgylchedd hwnnw'n llywio'r sefydliad ac yn dylanwadu arno. Mae hyn yn bwysig oherwydd gall ceisio cyflawni newid o fewn sefydliad heb newidiadau ategol i'r amgylchedd fod yn anodd iawn.

O ystyried system y CS, mae'r syniad yma'n awgrymu nad oes modd deall y system yn llwyr heb ystyried ei chyd-destun o fewn fframwaith rheoleiddio'r Comisiwn Ewropeaidd ynghyd â thirlun gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd Cymru. Mae ystyriaethau economaidd yn dylanwadu'n sylweddol ar Gronfeydd Strwythurol. Eto i gyd, mae nifer o ofynion llywodraethu ynghlwm wrth wario arian cyhoeddus ac mae llywodraethau yn wynebu gwahanol ofynion a phwysau tymor byr. Awgryma hyn fod yn rhaid deall a derbyn y berthynas rhwng natur hirdymor datblygu economaidd ac effaith tymor byr prosesau ac atebolrwydd fel rhan o'r amgylchedd allanol. Yr amcan fydd sicrhau cydbwysedd priodol rhwng y meysydd hyn.

Wrth gyflawni'r cydbwysedd hwnnw mae ffactorau amgylcheddol yn aml yn bwysicach na ffactorau sefydliadol. Wrth archwilio'r system CS yng Nghymru gellir gweld effaith hyn mewn mecanweithiau rhagosod.

Gydol fy adolygiad mae llawer o'r bobl yr wyf wedi siarad â hwy wedi barnu mai un o amcanion allweddol y Cronfeydd Strwythurol ac yn wir wariant ar ddatblygu economaidd yng Nghymru yn gyffredinol yw dyrannu adnoddau mewn rhannau allweddol o'r economi er mwyn creu màs critigol. Dyma'r màs critigol a fydd yn creu'r gwaddol cynaliadwy a fydd yn parhau ar ôl i gymorth y Cronfeydd Strwythurol ddod i ben. Os byddwn yn derbyn mai dyma'r amcan sefydliadol, diddorol yw nodi bod bodolaeth grymoedd amgylcheddol (y mecanweithiau rhagosod), sy'n tueddu i ffafrio defnydd llai penodol a mwy eang o gyllid, yn gwrthbwysu'r grymoedd sefydliadol hyn. Mae'r rhain yn digwydd am ddau brif reswm:

- Mae gofyn gwario swm penodol o arian o fewn cyfnod penodol ac ar gyfradd benodol o dan y Cronfeydd Strwythurol. Bernir bod defnyddio'r holl arian (h.y. peidio â rhoi unrhyw arian yn ôl) yn amcan allweddol. Mae hyn yn creu pwysau i sefydlu a chynnal momentwm.
- Dymuniad tybiedig Llywodraeth Cymru i ddangos bod holl ardaloedd daearyddol a sectorau thematig Cymru yn elwa ar y Cronfeydd Strwythurol a dymuniad tybiedig pob rhanbarth a sector yng Nghymru i ddangos eu bod wedi cyflawni eu "cyfran" o'r Cronfeydd Strwythurol.

Mae'r grymoedd amgylcheddol hyn yn debygol o chwarae rhan o fewn cylch o'r Cronfeydd Strwythurol yn y dyfodol ac mae hyn yn fy narbwyllo i gredu bod yn rhaid i ni anelu at sicrhau cydbwysedd priodol rhyngddynt a'r grymoedd sefydliadol. Dyma sail fy argymhellion ond mae'n bwysig deall y bydd y grymoedd amgylcheddol yn parhau i dra-arglwyddiaethu os na fydd y grymoedd sefydliadol yn ddigon cryf.

5.4. Cyflenwi a Monitro (A6)

Wrth ddisgrifio'r model un contractwr (Adran 5.1) rwyf wedi pwysleisio pwysigrwydd yr agweddau cyflenwi ar brosiectau - gan sicrhau bod canlyniadau dymunol yn cael eu cyflawni a gwneud addasiadau mewn pryd os nad yw hyn yn digwydd. Yn y maes hwn y gwelir rhai o'r gwahaniaethau mwyaf rhwng y dull un contractwr a'r system CS, ac yn arbennig yn y prosiectau hynny (tua 60% o'r rhaglen gyffredinol) lle y mae'r cyflenwi yn seiliedig ar wasanaethau yn bennaf. Yn amlwg mae systemau un contractwr yn cynnwys ymrwymadau cytundebol rhwng y partion yn yr un modd â'r systemau CS. Mae'r contractau hyn yn seiliedig ar brosesau asesu risg a dyrannu risg ac maent yn cynnwys disgrifiadau clir o gyfrifoldebau a rhwymedigaethau ynghyd â disgrifiadau clir o'r sancsiynau y gall y cleient a'r prif contractwr eu defnyddio os nad yw amcanion yn cael eu cyflawni.

Amcan sylfaenol prosiectau un contractwr, fodd bynnag, ac yn arbennig o fewn y sector preifat, yw creu buddsoddiad a rennir mewn llwyddiant. Mae cyd-ddealltwriaeth na ddylai'r sancsiynau cyfreithiol ond gael eu defnyddio (a hynny'n gyndyn iawn) os nad oes unrhyw ddewis arall. Er enghraifft, nid yw'n fawr o gysur i fusnes i fod yn rhan o frwydr gyfreithiol hir am iawndal os yw prosiect wedi methu a bod cyfle mawr o fewn y farchnad wedi'i golli.

Mae'r buddsoddiad hwn ar y cyd mewn llwyddiant i'w weld mewn gwahanol brosesau sy'n ceisio sicrhau bod prosiectau is-gontractio i'w cael o fewn fframwaith cymorth cadarn. Diben y fframwaith hwn yw cynyddu'r cyfleoedd i gyflawni'n llwyddiannus heb amharu ar rwymedigaethau a hawliau cyfreithiol a heb achosi risgiau rheoleiddio. Gallai'r prosesau a ddefnyddir gynnwys:

- Cam paratoi ffurfiol lle nad yw unrhyw weithgareddau'n cael eu cynnal mewn perthynas â'r prosiect ond lle y caiff yr adnoddau priodol eu cynnull a lle y ceir cyfleoedd ar gyfer sicrhau eglurder ynghylch materion gweithredol a chytundeb ynghylch mecanweithiau adrodd a monitro.

- Cyfarfodydd adolygu prosiect sy'n rhoi'r cyfrifoldeb i'r is-gontractwr ddarparu gwybodaeth amser real am gynnydd a darparu cymhelliant ar gyfer yr is-gontractwr, ac yn arbennig yn ystod camau cynnar prosiect, er mwyn tynnu sylw at faterion posibl. Mae'r cymhelliant hwn gan amlaf yn deillio o farn a rennir fod problemau mewn prosiectau yn dueddol o ddod i'r amlwg yn gynnar ac y gall eu nodi ar y dechrau arwain at newidiadau bach y cytunir arnynt i brosesau a fydd yn sicrhau bod prosiect yn ôl ar y trywydd cywir.

O fewn y system CS ceir contractau rhwng y Comisiwn Ewropeaidd a WEFO (fel yr Awdurdod Rheoli) ar gyfer cyflawni targedau y cytunir arnynt ar lefel y rhaglen ac yna rhwng WEFO a noddwyr prosiectau ar gyfer cyflawni targedau prosiect unigol a fydd, gyda'i gilydd, yn cyflawni targedau'r rhaglen. Caiff y contractau hyn eu sefydlu drwy lythyrau cynnig sydd ar ffurf gyfreithiol safonol ac sy'n nodi'r rhwymedigaethau, yr atebolrwyddau a'r sancsiynau perthnasol. Mae'r contractau hyn, fodd bynnag, yn rhoi pwerau ymyrraeth a disgresiwn sylweddol i WEFO fel y bo angen o dan rhwymedigaethau WEFO i'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae hyn yn creu fframwaith ffurfiol iawn lle y caiff cyfrifoldeb a rhwymedigaeth am gyflawni targedau ei drosglwyddo i noddwyr prosiect. Bydd y noddwyr hyn yn destun gwahanol weithdrefnau archwilio, monitro a gwerthuso ffurfiol.

Credaf y bydd natur ffurfiol y perthnasau contract o fewn y Cronfeydd Strwythurol yn parhau mewn cylchoedd yn y dyfodol. Eto i gyd, gallai Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd ar lefel uwch ynghyd â phrofiad o'r cylch presennol gyfrannu at sicrhau cydbwysedd mwy effeithiol rhwng y mecanweithiau rheoli ffurfiol a gwell mecanweithiau cymorth.

5.5. Modelu a Dadansoddi Data (A7)

Derbynnir yn gyffredinol mai'r elfennau allweddol sydd eu hangen ar economi ddatblygedig er mwyn cynnal twf yw sylfaen wybodaeth, sector busnes a all fanteisio ar y sylfaen wybodaeth honno, gweithlu a all gynnig y sgiliau sydd eu hangen gan fusnesau a seilwaith sy'n ei gwneud hi'n bosibl i symud yn effeithiol ddeunyddiau crai fel allbynnau a chynnyrch a gwasanaethau fel allbynnau'r economi. Mae cyfundrefn enwi'r Cronfeydd Strwythurol yn cyd-fynd yn gymharol dda â'r pedwar categori hyn o safbwynt y dosbarthiad blaenoriaeth swyddogol ond mae'r adrodd presennol ar effaith y Cronfeydd Strwythurol yn dueddol o ganolbwyntio ar dargedau rhifiadol ar draws Cymru, ar lefel uchel, ac ar ddangosyddion rhanbarthol a thematig manwl iawn, ar lefel is. Mae'r ddau hyn yn bwysig, wrth gwrs, ond nid ydynt yn cynnwys lefel adrodd canolraddol a allai helpu i ddarparu'r cyd-destun economaidd cyffredinol ac yn bwysicach offer defnyddiol i gynorthwyo â rheoli.

Mae'r rhan fwyaf o'r data yr wyf wedi'u cyflwyno yn yr adroddiad hwn ar lefel ganolraddol. Mae llawer o fusnesau a sefydliadau'r sector cyhoeddus yn ceisio eu cyflwyno a'u defnyddio drwy dull "ystafell ryfela" a chredaf y byddai hyn yn werthfawr mewn perthynas â'r Cronfeydd Strwythurol.

Trwy'r adolygiad cefais gyfle i archwilio system WEFO ar gyfer casglu data ac adrodd arnynt ac rwy'n credu ei bod yn system gynhwysfawr a hyblyg a all ddarparu dadansoddiadau amrywiol iawn. Mae rhai cyfyngiadau ynghlwm wrthi, fodd bynnag, sef yn bennaf y gallu i ddadansoddi gwarant ar lefel ddaearyddol fanwl ond caiff y cyfyngiadau hyn eu gwrthbwysu gan y gallu i lunio'r dadansoddiadau sectoraidd, dadansoddiadau o weithgaredd a dadansoddiadau o wariant yr wyf wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Mae'r ffaith bod gwybodaeth o'r fath ar gael yn sicrhau dull rheoli pwysig, ar gyfer Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan er enghraifft, ac mae'n creu cyd-destun economaidd ar gyfer archwilio data dangosol mwy manwl. Gall data yn dangos y gwahanol ymwneud sectorol ar lefel is-gontractwyr a chadwyni

cyflenwi gael eu defnyddio, fel yr wyf i wedi gwneud yn yr adroddiad, ar gyfer awgrymu gwelliannau i fecanweithiau ar gyfer dethol a chyflenwi prosiectau.

Gallai'r data hefyd fod yn ddefnyddiol ar gyfer creu darlun cyhoeddus, ar lefel ranbarthol er enghraifft, o wahanol weithgareddau'r Cronfeydd Strwythurol mewn ardal benodol a sut y maent yn ymwneud o ran synergedd â'u hunain ac â gweithgareddau economaidd eraill Llywodraeth Cymru.

5.6. Dull o Ddatblygu Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd (A1, A3)

Mae dwy ystyriaeth yn berthnasol i benderfyniadau ynghylch ble i wario'r Cronfeydd Strwythurol a sut i wneud hynny sef cymhwysra (risg cydymffurfio) ac addasrwydd economaidd (risg busnes). Mae'r cyntaf yn annewisol i bob pwrpas a byddai gan amlaf yn gweithredu ar sail gweld cymhwysedd yng nghyd-destun swyddogaeth porth o fewn prosesau dethol prosiectau; yn yr ail mae disgrisiwn a chrebwyll yn ofynnol ar gyfer dewis rhwng gwahanol opsiynau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd.

Mae trafodaethau ynghylch meini prawf dethol economaidd wedi tueddu i ganolbwyntio ar ddau ddull. Mae'r cyntaf yn cynnwys pennu blaenoriaethau o safbwynt themâu eang iawn. Gall anawsterau fod ynghlwm â'r dull hwn, fodd bynnag, gan y gall fethu â darparu'r meini prawf pendant ar gyfer dethol sydd eu hangen i wahaniaethu rhwng gwahanol opsiynau cymwys. O'r herwydd risg cydymffurfio (cymhwysra) yw'r prif faen prawf ar gyfer dethol gan amlaf. Mae'r ail ddull wedi ceisio diffinio blaenoriaethau ar lefel llawer iawn mwy manwl ac mae'n dueddol o gael ei feirniadu fel dull sy'n "dewis enillwyr". Mae hyn yn digwydd yn gyntaf am y rheswm dealladwy y gall rhywun ddewis yr enillwyr "anghywir" a gall hyn arwain at drafodaethau ynghylch y sylfeini tystiolaeth priodol ar gyfer penderfyniadau o'r fath. Yn bwysicach, fodd bynnag, mae nodi grŵp bach o "enillwyr" yn tynnu sylw ar unwaith at grŵp mwy o "gollwyr".

Credaf mai dull sy'n cyfuno elfennau o'r ddau ddull uchod sydd orau. Byddai'n sicrhau rôl gywir i benderfyniadau ynghylch risgiau busnes drwy dderbyn bod elfen disgresiynol (crebwyll) yn berthnasol a byddai'n ceisio sicrhau fframwaith cymeradwy ar gyfer gwneud y penderfyniadau hynny.

Credaf y byddai'r fframwaith hwn yn seiliedig ar ddwy ragdybiaeth. Yn gyntaf, fod gwaddol economaidd yn deillio o greu canolfannau o fàs critigol yn yr economi ac yn ail mai'r ffordd orau o annog y canolfannau hynny i ffurfio yw drwy adeiladu ar feysydd presennol o "alluogrwydd cudd", yn unol â'r cyd-destun a'r amserlen yr ydym yn gweithio o'u mewn. Byddai fframwaith blaenoriaethau economaidd yn ceisio diffinio nodweddion galluogrwydd cudd fel y gallai rhan o'r weithdrefn ddethol ar gyfer darpar brosiectau'r Cronfeydd Strwythurol fod yn asesiad o'i gallu i ychwanegu mewn modd synergyddol at y galluogrwydd sydd eisoes i'w gael. Credaf y gallai'r dull hwn, ar y cyd â'r pedwar math o weithgaredd economaidd yr wyf wedi'u defnyddio fel categorïau yn yr adroddiad a'r cysyniad o weithgareddau buddiol a drafodir yn Adran 5.2, ddarparu fframwaith cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch risgiau busnes.

Byddai hyn, ar y cyd â gwaith rheoli portffolio (Adran 5.2), yn helpu i sicrhau rhagor o bwyslais ar greu ymyriadau ar raddfa fawr fel ffordd o annog greu màs critigol. Byddai'r ymyriadau hyn yn debygol o fod ar ffurf cyfuniad o'r pedwar math o weithgarwch economaidd o fewn cyfuniad o alluogrwydd presennol a galluogrwydd a ariennir o'r newydd. Byddai'r penderfyniadau dethol (risg busnes) yn seiliedig ar wahanol weithgareddau buddiol sy'n arwain at enillion rhesymol ar fuddsoddiad o fewn y portffolio cyffredinol.

Byddwn yn diffinio ymyriadau ar raddfa fawr, yng nghyd-destun Cymru, fel cefnogaeth sy'n ceisio cyflawni cymorth drwy fuddsoddiadau synergyddol neu ymylol mewn meysydd lle y mae màs critigol (galluogrwydd cudd) eisoes i'w gael. Credaf mai nodweddion galluogrwydd cudd yw:

- Maes â thri chryfder allweddol - adnoddau (adeiladau, cyfleusterau, cyfarpar), arbenigedd (Eiddo Deallusol, gwybodaeth

academaidd, gwybodaeth am ddiwydiant) a phobl (sgiliau, agwedd).

- Maes y mae ei gryfder yn ddigon eang fel y gellir manteisio arno i gynnwys holl elfennau allweddol ecosystem economaidd Cymru - busnesau mawr, busnesau bach, Addysg Uwch/Addysg Bellach - ac er mwyn bod yn ddeniadol i fuddsoddiadau o'r tu allan (cyfalaf menter, Cynghorau Ymchwil y DU, Bwrdd Strategaeth Technoleg, Horizon 2020)

5.7. Y Cefndir Hanesyddol (A9)

Mae rhaglen 2007-2013 wedi'i hen sefydlu ac mae perfformiad Cymru wrth ddefnyddio'r Cronfeydd Strwythurol eisoes yn cael ei ystyried fel perfformiad llwyddiannus. Caiff y systemau a'r prosesau rheoli a ddefnyddir gan WEFO eu defnyddio gan y Comisiwn Ewropeaidd fel enghreifftiau ar gyfer aelod-wladwriaethau eraill. Mae lefel y gydymffurfiaeth yn uchel, mae cyfraddau'r camgymeriadau yn llai nag 1%; mae'r gwariant yn parhau'n agos i'r gyfradd sy'n ofynnol gan fod holl dargedau N+2 yn cael eu cyflawni ac mae targedau rhifiadol yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn cael effaith wirioneddol ar fywydau pobl, cymunedau a busnesau Cymru. Mae dros 384,100 o bobl wedi derbyn cymorth hyd yma. O blith y rhain mae 46,600 o bobl wedi derbyn cymorth i gael gwaith ac mae 125,400 o bobl wedi derbyn cymorth i ennill cymwysterau. Mae 10,200 o fentrau hefyd wedi derbyn cymorth ac mae 17,600 o swyddi a thua 5,200 o fentrau wedi'u creu.

Mae'r adolygiad wedi ystyried y newidiadau sylweddol a wnaed i'r trefniadau rheoli a'r trefniadau gweithredu rhwng rhaglenni 2000 - 2006 a'r rhaglenni presennol ac mae hefyd wedi ystyried i ba raddau y cyflawnwyd eu heffeithiau bwriedig. Y prif newidiadau o safbwynt hyn yw:

- Newid i ddull mwy strategol drwy ymdrechion i ddiffinio'n well feysydd â blaenoriaeth a lleihau'n sylweddol nifer cyffredinol y prosiectau. Diben hyn yw gwneud y system yn llai cymhleth ac osgoi cymaint â phosibl o orgyffwrdd.

- Newid i ddull mwy cydweithredol o bennu ac arfarnu prosiectau er mwyn ceisio pennu meysydd blaenoriaeth yn well ynghyd â chyfleoedd ar gyfer partneriaethau a chydweithredu.
- Mabwysiadu gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer caffael cyflenwi o fewn prosiectau.
- Cyflwyno gwell mecanweithiau cymorth a mecanweithiau hyfforddiant ar gyfer noddwyr prosiectau. Mae hyn yn cynnwys gwneud rhagor o ddefnydd o adnoddau ar-lein.

Bwriad yr adolygiad hwn, y mae ei gylch gorchwyl mewn atodiad isod, yw ystyried sut yr ydym wedi gweithredu rhaglenni yn 2000-2006 a 2007-2013, ynghyd â chanlyniadau'r gwaith hwnnw. Gobeithir y bydd hyn yn ein helpu i bennu mesurau ymarferol y gellir eu gweithredu wrth i ni reoli cylch o raglenni yn y dyfodol, gan sicrhau cymaint â phosibl o fudd i Gymru. Canolbwyntir felly ar "sut" yn hytrach nag ar "beth" ac nid yw'r adolygiad wedi trafod y blaenoriaethau polisi penodol na'r ymyriadau penodol a allai fod ynghlwm wrth y cylch nesaf o raglenni.

Mae'r cylch gorchwyl yn nodi y bydd dau gam i'r adolygiad. Er mwyn cydfynd yn well â'r gwaith sydd eisoes ar droed i baratoi ar gyfer y cylch nesaf penderfynwyd rhannu'r adolygiad yn gam archwilio cychwynnol, ac yna byddai'r adroddiad hwn a'r argymhellion yn cael eu cyflwyno.

5.8. Ymchwil ac Astudiaethau Achos

Ar ddechrau'r adolygiad hwn roedd gen i ddi-ddordeb mewn gweld pa waith ymchwil a gwybodaeth arall a oedd i'w cael yn Ewrop a allai ddangos beth oedd wedi bod o ddefnydd i ranbarthau Ewropeaidd eraill a beth nad oedd o ddefnydd iddynt wrth weithredu'r Cronfeydd Strwythurol. Daeth yn amlwg nad oedd llawer o ddeunyddiau ar gael a oedd yn ymdrin yn benodol â'r defnydd o Gronfeydd Strwythurol. Eto i gyd, roedd llawer o ymchwil ynghylch agweddau penodol ar weithgarwch perthnasol, er enghraifft ymyriadau o fewn y farchnad lafur. Gwnaeth academyddion o Gymru y

siaredais â hwy gadarnhau nad oedd llawer o ymchwil wedi'i gynnal yn y maes hwn a nododd un mai'r rheswm am hyn oedd nad oedd llawer o gyllid ar gael ar ei gyfer.

O'r herwydd rwyf wedi ceisio dod i rai casgliadau byr sy'n seiliedig ar y deunyddiau sydd ar gael ac ar drafodaethau â dwy ardal yn Ewrop y ceir astudiaethau achos yn eu cylch sef Saxony yn hen Nwyrain yr Almaen a Chernyw yn y DU. Dylid nodi, fodd bynnag, fod y deunyddiau ymchwil yn dueddol o ganolbwyntio ar brosesau yn bennaf yn hytrach nag ar effeithiau economaidd.

O safbwynt strwythurau rheoli a strwythurau cyflenwi, roedd rhai cymariaethau o safbwynt graddau'r canoli. Gwelwyd manteision ac anfanteision systemau a oedd wedi'u canoli a systemau nad oeddent wedi'u canoli ond awgrymai'r dystiolaeth fod systemau sydd wedi'u canoli yn cael eu ffafrio lle roedd creu màs critigol yn amcan economaidd allweddol. Nodwyd, fodd bynnag, fod systemau sydd wedi'u canoli yn dueddol o roi'r capasiti o dan straen. Mewn achosion o'r fath barnwyd bod cyflawni rhai amcanion strategol drwy ddefnyddio cyrff allanol arbenigol yn fuddiol. Un o fanteision eraill systemau sydd wedi'u canoli yw eu gallu i integreiddio ffrydiau cyllid o fewn Cronfeydd Strwythurol ac ar y cyd â ffynonellau cyllid allanol perthnasol.

O safbwynt materion a phryderon, roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gysylltiedig â'r beichiau gweinyddol a'r beichiau rheoleiddio a oedd ynghlwm wrth Gronfeydd Strwythurol. Nid oedd llawer o dystiolaeth a awgrymai fod gwahaniaethau mawr ar draws Ewrop yn hyn o beth ond nodwyd bod y gwahaniaethau rhwng rheoliadau'r Cronfeydd Strwythurol a rheoliadau "domestig" ychydig yn fwy amlwg yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o Ewrop. Cafodd perfformiad arbennig Cymru o safbwynt cydymffurfio â'r rheoliadau ei adlewyrchu yn yr ymchwil, fodd bynnag.

Roedd tystiolaeth fod y Comisiwn Ewropeaidd yn ymwybodol o'r materion hyn ac yn ceisio lleihau eu heffaith, yn bennaf drwy gyflwyno rhagor o gymesuredd. Er enghraifft, awgrymwyd y dylai gwaith archwilio ganolbwyntio rhagor ar atal twyll yn hytrach nag ar ganfod camgymeriadau "lefel is".

O safbwynt yr astudiaethau achos, roedd Saxony a Chernyw wedi mabwysiadu systemau rheoli integredig iawn a oedd wedi'u canoli ac a oedd ag amcanion economaidd pendant iawn. O safbwynt Saxony, cafodd y manteision ariannol a ddeilliodd o ailuno eu defnyddio er mwyn sbarduno'r galw ac roedd pwyslais penodol ar greu sgiliau lefel uwch. Roedd Cernyw wedi llunio disgrifiad penodol iawn o ganlyniadau economaidd dymunol eu rhaglen ac roedd wedi defnyddio cymysgedd o wahanol ddulliau datblygu prosiect gan gynnwys gwahoddiadau i ymgeisio am gyllid a chomisiynu ar gyfer cyflenwi. Pwysleisiodd Cernyw yn benodol bwysigrwydd cydweithio'n agos â noddwyr prosiect ar ddechrau'r cam cyflenwi er mwyn sicrhau bod y canlyniadau dymunol a phenodedig iawn yn cael eu cyflawni.

5.9. Ymatebion Ysgrifenedig

Mae llawer o'r wybodaeth a'r safbwyntiau yr wyf wedi'u casglu yn ystod yr adolygiad wedi deillio o drafodaethau wyneb yn wyneb. Credaf fod y dull hwn yn sicrhau bod materion yn cael eu harchwilio'n fwy trwyadl. Rwyf wedi ychwanegu at hyn ar wahanol adegau, fodd bynnag, gan gyhoeddi dogfennau yn amlinellu gwahanol gynigion a chwestiynau ac yn gwahodd ymatebion ysgrifenedig. Ceir crynodeb byr o'r ymatebion hynny yn yr adran hon. Derbyniwyd ymatebion oddi wrth Awdurdodau Lleol, Addysg Uwch, y trydydd sector a'r sector busnesau bach. Dangosodd yr ymatebion nad oedd llawer o wahaniaethau ar draws sectorau a chadarnhawyd llawer o'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod fy nhrafodaethau llafar. Y ddwy brif thema, a oedd yn themâu cyson, oedd y dylai cylch yn y dyfodol o'r Cronfeydd Strwythurol fanteisio ar yr holl brofiad a ddeilliodd o'r cylch presennol, o safbwynt prosiectau a mecanweithiau cyflenwi. Pwysleisiwyd hefyd y dylid

parhau i geisio lleihau'r beichiau gweinyddol a'r beichiau rheoleiddio lle y bo'n bosibl.

6. Atodiadau

6.1. Cylch Gorchwyl

Adolygiad Annibynnol o'r trefniadau ar gyfer gweithredu rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar ôl 2013

Cefndir

Fel rhan o'n paratodau ar gyfer y cylch nesaf o Raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, bydd Dr Grahame Guilford yn arwain adolygiad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer gweithredu Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar ôl 2013. Bydd rhan gyntaf yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar brosesau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ar gyfer gwneud cais am gyllid a'i phrosesu ar gyfer rheoli prosiectau. Nod y rhan hon o'r adolygiad yw hyrwyddo gwelliannau parhaus.

Bydd y rhan hon o'r adolygiad yn ystyried:

- a) Cynigion deddfwriaethol drafft y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y cylch nesaf o raglenni Cronfeydd Strwythurol ar gyfer y cyfnod 2014-2020, a'r adroddiad ar ymchwiliad Pwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad Cenedlaethol i'r cynigion hyn (Chwefror 2012);
- b) y gwersi a ddysgwyd wrth weithredu rhaglenni 2007-2013 a'r rhai blaenorol, gan gynnwys darganfyddiadau ac argymhellion ymchwiliad parhaus Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru i 'Effeithiolrwydd Cyllid Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru'; a
- c) gwaith parhaus y Fforwm Partneriaeth Rhaglenni Ewropeaidd ar ôl 2013 a'r ffrydiau gwaith a sefydlwyd gan WEFO i roi cymorth ar gyfer datblygu'r cylch nesaf o raglenni.

Bydd ail ran yr adolygiad yn ystyried pa mor briodol yw trefniadau presennol WEFO ar gyfer llywodraethu ac adrodd yn ôl wrth gyflawni ei rôl o reoli ac ardystio awdurdodau ar gyfer y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol. Bydd y rhan hon yn ystyried a ddylid estyn rôl y sefydliad i gynnwys y cyfrifoldeb am hybu a hyrwyddo mynediad i ystod ehangach o gyfleoedd i gael arian gan yr UE.

Cylch Gorchwyl

Rhan Un

Nod y rhan hon yw adolygu'r trefniadau ar gyfer gweithredu rhaglenni presennol Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ac asesu pa mor addas yw'r trefniadau hynny ar gyfer y rownd nesaf o raglenni. Rhoddir sylw arbennig i'r canlynol:

- symleiddio'r broses o wneud ceisiadau, y broses fonitro a'r broses o adrodd yn ôl;
- defnyddio dulliau amgen o weithredu megis comisiynu uniongyrchol a grantiau cystadleuol;
- caffael wrth weithredu prosiectau;
- hyrwyddo rôl y sector preifat;
- integreiddio ffrydiau ariannu'r UE yn well; a
- hyrwyddo cynaliadwyedd buddsoddiadau, gan gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio mwy o offerynnau peiriannu ariannol.

Rhan Dau

Yn sgil Rhan 1 yr Adolygiad, amcan Rhan 2 yw ystyried rôl a chyfrifoldebau WEFO ar gyfer y dyfodol gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- trefniadau llywodraethu ac adrodd yn ôl, gan gynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau mynediad teg ac agored i gronfeydd ariannol yr UE;
- rôl posibl WEFO wrth hybu a hyrwyddo mynediad i ystod ehangach o gyfleoedd ariannu gan yr UE, gan gynnwys yr amrywiol raglenni sector sy'n cyd-fynd â strategaeth 2020 Ewrop ar gyfer twf call, cynaliadwy a chynhwysol; a

- y cyfleoedd sydd ar gael ynghyd â'r potensial ar gyfer datblygu rhaglenni, prosesau a phlatfformau TGCh cyffredin ar draws ffrydiau ariannu buddsoddi ehangach Ewrop.

Deilliannau cyraeddadwy

Y nod fydd cyflwyno adroddiad cychwynol ag argymhellion am Ran Un erbyn diwedd mis Tachwedd 2012 ac adroddiad ar Ran Dau erbyn diwedd mis Chwefror 2013.

6.2. Methodoleg

Wrth gynnal yr adolygiad rwyf wedi defnyddio ystod eang o ddulliau ymchwilio, gan gynnwys adolygu llenyddol, cyfweiliadau lled-strwythuredig gydag amryw i randdeiliaid, dwy ymarfer trafod agored a dadansoddiad o ddata rheoli a pherfformiad sydd wedi ei feintioli gan WEFO. Wrth lunio'r adroddiad, rwyf wedi edrych ar ddata meintiol ac ansoddol gan amryw i ffynhonnell, gan gynnwys adroddiadau gan y Comisiwn Ewropeaidd, WEFO, Llywodraeth Cymru'n ehangach a rhanddeiliaid allanol o wahanol sectorau sy'n cyflenwi prosiectau gan ddefnyddio Cronfeydd Strwythurol. Hefyd, wrth lunio'r adroddiad, rwyf wedi edrych ar adroddiadau a luniwyd gan Bwyllgorau Craffu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn enwedig y Pwyllgor Menter a Busnes a'r Pwyllgor Cyllid.

Cyfweiliadau lled-strwythuredig gydag amryw i randdeiliaid yw prif elfen fy adolygiad. Rhoddodd hyn olwg i mi ar siâp y rhaglen gyfredol a bu'n gyfle i holi barn am y blaenoriaethau y dylid eu hystyried ar gyfer trefniadau gweithredu yn y dyfodol. Maent hefyd wedi edrych ar y posibilrwydd o ehangu yn y dyfodol i ddarparu prif amcanion economaidd. Rwy'n canolbwyntio, yn rhan olaf f'adolygiad, ar gynnal cyfweiliadau sydd â ffocws pendant iddynt gydag uwch swyddogion o sefydliadau sy'n cynrychioli'r prif noddwyr prosiect. Mae'r cyfweiliadau hyn yn canolbwyntio ar ddichonoldeb modelau cyflenwi penodol. Mae'r rhain wedi arwain yn uniongyrchol at gasgliadau ac argymhellion yr adroddiad hwn.

Er mwyn rhoi cyfle i'r nifer fwyaf o randdeiliaid roi eu barn ar f'adolygiad rwyf wedi cynnal dau ymarfer trafod agored yn ystod diwedd mis Awst 2012. Cyflwynwyd sylwadau ysgrifenedig ar y pynciau gan nifer o randdeiliaid allanol. Llundais Bapur Trafod ym mis Hydref 2012, yn gwahodd sylwadau ar y materion gweithredu a rheoli penodol oedd yn cael eu hystyried fel rhan o'r hadolygiad. Cafwyd ymateb i'r Papur Trafod gan brif randdeiliaid o'r sector awdurdod lleol, sector addysg uwch, y trydydd sector a'r sector preifat.

Ategwyd yr ymarferion uchod wrth wneud adolygiad fertigol o brosiectau “astudiaeth achos” a’u profiadau o’r prosesau datblygu, gwerthuso a gweithredol. Mae hyn wedi helpu i nodi a chraffu ar nifer o faterion gweithredol cyffredinol. I gyd-fynd â hyn, mae’r data perfformiad a rheoli sydd gan WEFO wedi’n galluogi i ddadansoddi’r rhaglenni’n gyffredinol yn ôl sector, dosbarthiad yn ôl ardal a dosbarthiad yn ôl gweithgaredd.

6.3. Rhestr o'r Gyfweleion

Jeff Andrews	Cynghorydd Polisi Arbenigol, Llywodraeth Cymru
Graham Benfield	Prif Weithredwr, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)
Ann Beynon	BT
Yr Athro David Blackaby	Dirprwy Bennaeth yr Ysgol Fusnes ac Economeg, Prifysgol Abertawe
Sean Bradley	Uwch Gyfreithiwr, Llywodraeth Cymru
Barbara Burchell	Tîm Ewropeaidd Arbenigol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Tracey Burke	Cyfarwyddwr, Strategaeth, Adran BETS, Llywodraeth Cymru
Jeff Collins	Cyfarwyddwr, Cyflenwi, Adran BETS, Llywodraeth Cymru
Ken Cook	Pennaeth Cefnogaeth Gofodol ac Adfywiad, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)
Dr Alastair Davies	Pennaeth Polisi Arloesi, Adran BETS, Llywodraeth Cymru
Alun Davies AC	Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd
Neville Davies	Cynghorydd Ewropeaidd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Sir Caerfyrddin
Nick Davies	Swyddfa Archwilio Cymru
Peter Davies	Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy Cymru
Gail Dervish	Rheolwr Mentrau Anweithgarwch Economaidd, WCVA
Mark Drakeford AC	Cadeirydd Fforwm Partneriaeth Rhaglenni Ewropeaidd (2014-2020) a Phwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan 2007-2013

Gwyn Evans	Tîm Ewropeaidd Arbenigol Cyngor Sir Penfro
Owen Evans	Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Adran Addysg a Sgiliau (o fis Rhagfyr 2012), Llywodraeth Cymru
Andy Falley	Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith (Trafnidiaeth), Llywodraeth Cymru
John Francis	Cyfarwyddwr Datblygu Busnes, Prifysgol Morgannwg
Dave Gilbert	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Adfywio a Hamdden Cyngor Sir Caerfyrddin
Jeff Godfrey	Cyfarwyddwr yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru
Geraint Green	Pennaeth Busnes ac Arloesi, WEFO
Lowri Gwilym	Rheolwr Tîm, Ewrop ac Adfywio Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Rob Halford	Pennaeth Cynllunio a Strategaeth, WEFO
Gareth Hall	Rhaglen Ynys Ynni Môn - Rheolwr Isadeiledd Strategol, Cyngor Sir Ynys Môn
Duncan Hamer	Dirprwy Gyfarwyddwr, Entrepreneuriaeth a Chyflawni, Adran BETS, Llywodraeth Cymru
Edwina Hart MBE OStJ AC	Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (BETS)
Dr Adrian Healy	Cydymaith Ymchwil, Ysgol Cynllunio a Daearyddiaeth, Prifysgol Caerdydd
Kate Hearnden	Cyn Gydgysylltydd Strategol Fframwaith Strategol Arloesi a Thechnoleg, Ymchwil a Datblygu, Llywodraeth Cymru
Michael Hearty	Cyfarwyddwr Cyffredinol Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad, Llywodraeth Cymru
Rob Hunter	Cyfarwyddwr, Cyllid a Pherfformiad, Adran BETS, Llywodraeth Cymru
Mark James	Prif Weithredwr, Cyngor Sir Caerfyrddin

Catherine Jenkins	Dirprwy Gyfarwyddwr, Sgiliau a Chyflogaeth, yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru
Derek Jones	Yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru
Gareth Jones	Cyfarwyddwr Cyffredinol, Dyfodol Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru
Peter Jones	Pennaeth Cyllid (Llywodraeth Leol a Chymunedau), Llywodraeth Cymru
Jane McMillan	Pennaeth Rheoli Rhaglenni ESF, WEFO
Phil McVey	Cyfarwyddwr, vlasska limited
June Milligan	Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Llywodraeth Cymru
Peter Mortimer	Cynghorydd Ewropeaidd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Clare Naylor	Rheolwr Rhaglenni, Prifysgol Morgannwg
Damien O'Brien	Prif Weithredwr, WEFO
Ian Owen	Pennaeth Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru (tan fis Ionawr 2013) / Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, WEFO (o fis Ionawr 2013)
Michael Parkinson	Pennaeth Sgiliau a Gweithgarwch Economaidd, WEFO
James Price	Cyfarwyddwr Cyffredinol BETS, Llywodraeth Cymru
Jonathan Price	Prif Economegydd, Llywodraeth Cymru
Sue Price	Pennaeth Rheoli Rhaglenni ERDF, WEFO
Chris Pugh	Swyddfa Archwilio Cymru
Dr Peter Quantick	Cyfarwyddwr Prosiectau Ewropeaidd, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

Emyr Roberts	Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru (tan fis Tachwedd 2012)
Phil Roberts	Cyfarwyddwr Corfforaethol (Adfywio a Thai), Dinas a Sir Abertawe
Ben Robertson	Swyddfa Archwilio Cymru
David Rosser	Cyfarwyddwr Cwmnïau Angori / Dinas-ranbarthau ac Arloesi, Adran BETS, Llywodraeth Cymru
Peter Ryland	Dirprwy Gyfarwyddwr, Perfformiad Rhaglenni a Chyllid, WEFO
Andrew Slade	Cyfarwyddwr, Polisi'r UE a Chyllido, Adran BETS, Llywodraeth Cymru
Alison Standfast	Dirprwy Gyfarwyddwr, Caffael, Gwerth Cymru, Llywodraeth Cymru
Rachel Stephens	Uwch-Reolwr Polisi, yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru
Arwel Thomas	Dirprwy Gyfarwyddwr, Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd, Llywodraeth Cymru
David Thomas	Rheolwr Gweithredu Rhaglenni ar ôl 2013, WEFO
David Thornley	Rheolwr Datblygu Prosiectau, WEFO
Derek Vaughan ASE	Aelod Seneddol Ewrop Llafur Cymru
Y Cynghorydd Bob Wellington	Arweinydd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Rob Wellington	Tîm Ewropeaidd Arbenigol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Amanda Wilkinson	Cyfarwyddwr, Addysg Uwch Cymru
Julie Williams	Uwch Swyddog Ariannu Allanol, Arloesi, Prifysgol Abertawe

Dylan Williams

Rhaglen Ynys Ynni Môn - Rheolwr Strategol
Polisi a Chaniatadau, Cyngor Sir Ynys Môn

Gareth Williams

Rheolwr Gyfarwyddwr, Old Bell 3 Ltd

Aelodau Fforwm Partneriaeth Rhaglenni Ewropeaidd (2014-2020)

Aelodau o Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan 2007-2013

6.4. Rhestr o Astudiaethau Achos a Chyfweleion

Astudiaethau Achos:

Adolygwyd y prosiectau canlynol fel astudiaethau achos:

- Business ICT for SME Principals (BICT2)
Compueraid Limited
- COASTAL
Dinas a Sir Abertawe, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Sector Sgiliau Ynni
Coleg Sir Benfro
- Gateway
WCVA
- Cymorth Dechrau Busnes Newydd
Prosiect Cydgyfeirio sy'n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru
- Sgiliau Twf Cymru
Prosiect Cydgyfeirio sy'n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru
- Partneriaeth Hyfforddiant, Ymchwil ac Arloesedd Dur (STRIP)
Prifysgol Abertawe

Dyma'r unigolion a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r broses astudiaethau achos:

Simon Cartwright	Uwch-Reolwr, Sgiliau Twf Cymru, Llywodraeth Cymru
Vanessa Davies	Rheolwr Datblygu Prosiectau, WEFO
Phil Fiander	Cyfarwyddwr Rhaglenni, WCVA
Geraint Green	Pennaeth Busnes ac Arloesi, WEFO
Amanda Hayman	Rheolwr Datblygu Prosiectau, WEFO
Nicky Howells	Coleg Sir Benfro
Jane McMillan	Pennaeth Rheoli Rhaglenni ESF, WEFO

Natalie Owen	Swyddog Datblygu Prosiectau, WEFO
Michael Parkinson	Pennaeth Sgiliau a Gweithgarwch Economaidd, WEFO
Dr Dave Penney	Prifysgol Abertawe
Margaret Rowlands	Swyddog Datblygu Prosiectau, WEFO
David Thornley	Rheolwr Datblygu Prosiectau, WEFO
Mark Watson	Swyddog Datblygu Prosiectau, WEFO
Tessa White	Rheolwr y Porth Ymgysylltu a Grantiau, WCVA
Yr Athro Dave Worsley	Prifysgol Abertawe
Nadine Young	Swyddog Datblygu Prosiectau, WEFO

6.5. Geirfa

AB	Addysg Bellach.
Adborth y Farchnad	Adborth neu adwaith marchnad i fenter neu ymyriad prosiect.
Arbenigo Deallus	Cysyniad ar bolisi arloesi gan y Comisiwn Ewropeaidd i hyrwyddo defnydd effeithiol ac effeithlon o arian cyhoeddus mewn ymchwil. Ei nod yw hybu arloesedd rhanbarthol i sbarduno twf a ffyniant economaidd trwy alluogi rhanbarthau i ganolbwyntio ar eu cryfderau.
AU	Addysg Uwch.
Awdurdod Rheoli	O dan Bolisi Cydlyniant yr UE 2007-2013, awdurdod rheoli sy'n gyfrifol am reoli a gweithredu'r Rhaglen Weithredol.
Banc Buddsoddi Ewrop	Banc yr Undeb Ewropeaidd, y mae Aelod-Wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd yn berchen arno ac sy'n cynrychioli eu buddiannau.
BBACH	Busnes Bach a Chanolig.
Buddiolwyr	Sefydliadau sydd wedi derbyn Cyllid Strwythurol ar gyfer cyflenwi prosiectau/gweithgareddau.
Bwrdd Strategaeth Technoleg	Corff sy'n sbarduno arloesedd sy'n dibynnu ar dechnoleg mewn meysydd sy'n rhoi'r cyfleoedd gorau i symbylu twf a chynhyrchiant y DU. Mae'n hyrwyddo, cefnogi ac yn buddsoddi mewn ymchwil, datblygu a masnacholi technoleg.
Cadwyn Gyflenwi	Yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, defnyddir y term i gyfeirio at gyrff sy'n darparu gwasanaethau neu weithgareddau i gyfranogwyr neu fuddiolwyr ar ran noddwyr prosiectau'r Cronfeydd Strwythurol er mwyn cyflawni amcanion a sicrhau canlyniadau'r prosiectau hynny.
Cam cynllunio busnes	Ail gam proses ddeublyg WEFO ar gyfer datblygu ac arfarnu prosiectau. Yn y cam hwn mae noddwr y prosiect yn paratoi cynllun busnes manwl ar gyfer y prosiect a gaiff ei ddefnyddio gan WEFO ar gyfer arfarnu'r prosiect yn ffurfiol.

Cam Paratoi	Cam ar ddechrau'r prosiect cyn dechrau cynnal y prosiect pan gaiff adnoddau'r prosiect eu crynhoi, y trefniadau gweithredol eu crisialu a'u cofnodi a'r mecanweithiau monitro eu dewis.
Canlyniad	Cynnyrch neu ganlyniad terfynol y prosiect.
Y Comisiwn Ewropeaidd	Corff gweithredol yr Undeb Ewropeaidd.
Comisiynu uniongyrchol	Comisiynu'n uniongyrchol, drwy gaffael agored a chystadleuol, ymyriadau penodol â blaenoriaeth gan yr Awdurdod Rheoli.
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig	Yn cefnogi polisi Ewropeaidd ar ddatblygu gwledig ac ariannu rhaglenni datblygu gwledig.
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop	Yn cefnogi datblygiad ac addasiad strwythurol economïau rhanbarthol, newid economaidd a chystadleurwydd cynyddol.
Cronfa Gydlyniant	Yn cynnig cymorth ar gyfer rhai o ranbarthau mwyaf tlawd Ewrop er mwyn sefydlogi eu heconomi a cheisio hybu twf, cyflogaeth a datblygu cynaliadwy. Mae Aelod-Wladwriaethau ag Incwm Gwladol Crynswth fesul preswlydd sy'n llai na 90% o gyfartaledd yr UE yn gymwys ar gyfer cyllid o'r Gronfa Gydlyniant. Mae'r Gronfa yn cyfrannu at ariannu mesurau amgylcheddol a rhwydweithiau cludiant ar draws Ewrop. Gall hefyd gael ei defnyddio ar gyfer ariannu blaenoriaethau polisi'r UE ar gyfer diogelu'r amgylchedd.
Cronfa Gymdeithasol Ewrop	Yn cefnogi polisiau cenedlaethol sy'n ceisio cynyddu cyflogaeth a chyfleoedd gwaith, gwella ansawdd a chynhyrchiant mewn gweithleoedd a lleihau allgau cymdeithasol a gwahaniaethau mewn cyfleoedd gwaith rhwng rhanbarthau.
Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop	Yn cefnogi sector dyframaethu a physgota Ewrop, pysgodfeydd a physgodfeydd mewndirol.
Cronfa Wybodaeth	Man cadw gwybodaeth fel bod gwybodaeth ar gael ar gyfer ei chasglu, ei threfnu, ei rhannu, ei chwilio a'i defnyddio.

Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd	Cronfeydd y Comisiwn Ewropeaidd a gaiff eu defnyddio ar gyfer cyflawni polisiau rhanbarthol y Comisiwn Ewropeaidd. Mae dwy elfen i'r Cronfeydd Strwythurol: Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop.
Cwmniau Angori	Cwmni sy'n sefydliad byd eang neu'n sefydliad rhyngwladol ac sydd â phencadlys neu bresenoldeb corfforaethol amlwg yng Nghymru.
Cydgwyfeirio	Nod y Polisi Cydlyniant o gynorthwyo Aelod-Wladwriaethau a rhanbarthau lleiaf datblygedig y Comisiwn Ewropeaidd sydd ar ei hôl hi er mwyn lleihau'r bwlch yn fwy cyflym o safbwynt cyfartaledd yr UE drwy wella'r amodau ar gyfer twf a chyflogaeth.
Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd	Yn ariannu mentrau ar gyfer atgyfnerthu cydweithredu ar draws ffiniau, yn drawswladol a chydweithredu rhynggranbarthol.
Cyfalaf Menter	Arian sydd ar gael i'w fuddsoddi mewn mentrau neu ymchwil arloesol, yn enwedig mewn technoleg uwch, lle gallai'r risg o wneud colled ac o wneud elw fod yn aruthrol.
Cyflenwi trwy Drydydd Parti	Cyfeirio at fodel y cyrff sy'n darparu gwasanaethau neu weithgareddau i gyfranogwyr neu fuddiolwyr ar ran noddwyr prosiectau'r Cronfeydd Strwythurol er mwyn cyflawni amcanion a sicrhau canlyniadau'r prosiectau hynny.
Cyfranogwyr	Yr unigolion sy'n cymryd rhan mewn prosiect a noddir gan yr ESF, er enghraifft myfyrwyr ar gwrs hyfforddi.
Cynghorau Ymchwil y DU	Partneriaeth strategol o Gynghorau Ymchwil y DU ar gyfer buddsoddi arian cyhoeddus mewn gwaith ymchwil yn y DU i ehangu gwybodaeth a sbarduno syniadau newydd sy'n arwain at economi gynhyrchiol, cymdeithas iach a chyfrannu at fyd cynaliadwy.
Y Cyngor Ewropeaidd	Yn diffinio cyfeiriad a blaenoriaethau gwleidyddol yr Undeb Ewropeaidd.

Cymorth Gwladwriaethol	Mathau o gymorth y gallai corff cyhoeddus neu gorff a noddir gan y cyhoedd eu rhoi i ymgymeriad (endid sy'n rhoi nwyddau neu wasanaethau ar unrhyw farchnad) a allai lurgunio'r gystadleuaeth ac effeithio ar y fasnach rhwng y gwledydd sy'n aelodau o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn monitro ac yn rheoli Cymorth Gwladwriaethol yn yr UE.
Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru	Y cynllun sy'n amlinellu prif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer seilwaith Cymru dros y degawd nesaf.
Cyllid Cydgyfeirio	Cefnogi'r Aelod-Wladwriaethau sydd wedi datblygu leiaf a rhanbarthau sydd ar ei hôl hi er mwyn lleihau'r bwlch yn fwy cyflym o safbwynt cyfartaledd yr UE drwy wella'r amodau ar gyfer twf a chyflogaeth. Dyma raglen y Cronfeydd Strwythurol ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn 2007-2013.
Cynnyrch Mewnwladol Crynswth	Gwrth allbwn cyffredinol gwlad o nwyddau a gwasanaethau (yn ystod blwyddyn ariannol gan amlaf) yn unol â phrisiau'r farchnad, heb gynnwys incwm net o dramor.
Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol	Ei hamcan yw gwneud rhanbarth yn fwy cystadleuol a deniadol a chryfhau cyflogaeth ynddo. Hynny mewn rhanbarthau nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr Amcan Cydlyniant (lle ceir y rhan fwyaf o ranbarthau tan anfantais). Mae wedi'i chynllunio i ragymateb i newidiadau economaidd a chymdeithasol, i hyrwyddo arloesedd, entrepreneuriaeth, diogelu'r amgylchedd, hygyrchedd a'r gallu i addasu ac i ddatblygu marchnadoedd llafur cynhwysol. Dyma raglen Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 ar gyfer y Dwyrain.
Cysylltedd	Bod wedi'ch cysylltu neu'n gysylltiol h.y. darparu seilwaith er mwyn galluogi cyfathrebu neu symud effeithiol rhwng gwahanol fannau.
Dadneilltuo	Golyga hyn na fydd arian nad yw wedi'i dalu eisoes i brosiect neu raglenni bellach ar gael. Gall hyn ddeillio o sawl ffactor, gan gynnwys methiant i fodloni targedau gwariant neu ail-gwmpasu gweithgareddau yn sgil newidiadau yn yr amgylchedd polisi ac economaidd allanol.

Datganiad o Ddiddordeb	Cam cyntaf proses ddeublyg WEFO ar gyfer datblygu ac arfarnu prosiectau. Mae darpar noddwyr prosiectau yn cyflwyno gwybodaeth ar lefel uchel am eu prosiect arfaethedig.
Dosbarthu Blaenoriaethau	Blaenoriaethau thematig ariannu rhaglenni Cydlyniant a Chystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol yng Nghymru, fel y'u disgrifir yn nogfennau y Rhaglenni Gweithredol.
Dosbarthu Gweithgareddau Economaid: Cymorth Busnes	Gweithgareddau sy'n cefnogi datblygiad busnesau.
Dosbarthu Gweithgareddau Economaid: Cymorth i Unigolion	Gweithgareddau sy'n cynorthwyo unigolion i ddatblygu eu sgiliau ac i'w paratoi ar gyfer ymuno â byd gwaith.
Dosbarthu Gweithgareddau Economaid: Seilwaith - Ffisegol	Gweithgareddau sy'n datblygu seilwaith ffisegol, er enghraifft trafndiaeth neu adfywio trefol.
Dosbarthu Gweithgareddau Economaid: Seilwaith - Gwybodaeth	Gweithgareddau sy'n datblygu seilwaith gwybodaeth, er enghraifft datblygu ymchwil a chyfleusterau cymorth ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig.
Dull Rheoli Portffolio	Ffordd o weithio lle bo'r amcan, fel enillion ar fuddsoddiad, yn cael ei wireddu trwy gymysgedd o brosiectau / gweithgareddau. Mesurir ei lwyddiant ar lefel y portffolio cyfan, gan gymryd y gallai prosiectau / gweithgareddau unigol perfformio'n wahanol i'r disgwyl.
Effaith	Canlyniad neu fantais mwy hirdymor sy'n deillio o brosiect neu weithgaredd.
Eiddo Deallusol	Creadigaethau'r meddwl. Rhennir Eiddo Deallusol yn ddau gategori: 1. eiddo diwydiannol, sy'n cynnwys dyfeisiadau (patentau), hawlfreintiau a dyluniadau diwydiannol 2. hawlfraint, sy'n cynnwys gwaith llenyddol ac artistig.

Enillion ar Fuddsoddiad	Mesur o berfformiad a ddefnyddir i gloriannu effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd buddsoddiad.
Ewrop 2020	Strategaeth deng mlynedd yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer twf.
Ffactor Llwyddiant Hanfodol	Y term am elfen sy'n angenrheidiol fel y gall sefydliad neu brosiect gyflawni ei amcanion. Mae'n ffactor neu'n weithgaredd allweddol sy'n ofynnol er mwyn sicrhau llwyddiant cwmni neu sefydliad.
Fforwm Partneriaeth Rhaglenni Ewropeaidd (2014-2020)	Yn rhoi cyngor i Weinidogion Llywodraeth Cymru ynghylch datblygu rhaglenni cyllid Ewropeaidd 2014-2020 yng Nghymru.
Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd (EPF)	Fframwaith sy'n pennu'r meysydd penodol lle y gall Cronfeydd Strwythurol gyfrannu yn y ffordd fwyaf effeithiol a synergyddol at bolisi datblygu economaidd cyffredinol Llywodraeth Cymru.
Fframweithiau Strategol	Mae Fframweithiau Strategol yn canolbwyntio ar y mathau o ymyriadau fydd yn rhoi Blaenoriaethau a Themâu'r Rhaglenni Gweithredol ar waith orau. Fe'u diffinnir fel 'cynlluniau i gyflawni pwrpas strategol penodol trwy gyfrwng ymyriadau sydd wedi'u cysylltu'n strategol â'i gilydd'.
Galluowgrwydd cudd	Maes lle ceir cryfder mewn tri maes - adnoddau, arbenigedd a phobl - a bod y cryfder hwnnw'n ddigon eang i allu cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd allai gyfrannu at bob un o brif elfennau ecosystem economaidd Cymru.
Grantiau Cystadleuol	Dyfarnu grantiau gan noddwr prosiect i fuddiolwyr ar sail cystadleuaeth, gan asesu pa gynigion sy'n bodloni orau dargedau a chanlyniadau'r prosiect.
Gweithgareddau Economaidd	Yr elfennau allweddol sydd eu hangen ar economi ddatblygedig er mwyn cynnal twf: sylfaen wybodaeth, sector busnes a all fanteisio ar y sylfaen wybodaeth honno, gweithlu sy'n darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar fusnes a seilwaith ar gyfer hwyluso cysylltedd.
Gweithgaredd Allbwn	Y cynnyrch sy'n cael eu creu gan brosiectau. Gallant fod yn ffisegol fel heolydd neu'n gynnyrch gwasanaethu fel gwasanaethau helpu busnesau neu hyfforddiant.

Gweithgaredd Buddiol	Gweithgaredd sy'n gwneud cyfraniad synergaid at gyflawni amcan cyffredinol.
Gweithgareddau Hanfodol	Gweithgareddau hanfodol sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau strategol a bennwyd ac sy'n sail i'r ymyriadau a ariennir gan raglenni'r Cronfeydd Strwythurol.
Gweithgaredd Prosesu	Y prif weithgareddau sy'n gysylltiedig â rheoli a chynnal Cronfeydd Strwythurol: cynllunio, dewis prosiect, darparu'r prosiect a chydymffurfio â'r rheolau a'r rheoliadau.
Gwerth Ychwanegol Crynswth	Mesur ym maes economeg o werth nwyddau a gwasanaethau a gaiff eu cynhyrchu mewn maes, diwydiant neu sector o'r economi.
Gwybodaeth am y Farchnad	Gwybodaeth am y farchnad y bydd prosiect, ymyriad neu fenter yn gweithio ynddi.
Horizon 2020	Horizon 2020 yw rhaglen newydd yr UE ar gyfer ymchwil ac arloesi. Mae'n rhan o'r ymgyrch i greu twf a swyddi newydd yn Ewrop. Caiff ei chynnal o 2014 hyd 2020 a bydd ganddi gyllideb o €80 biliwn.
Màs critigol	Nifer o weithgareddau neu ymyriadau sy'n ddigonol ar gyfer ysgogi twf pellach.
Mecanwaith rhagosod	Y term a ddefnyddir yn yr adroddiad ar gyfer nodi rhagosodiad systematig i ystyriaethau penodol, i eithrio eraill, wrth ymgymryd â phroses neu weithdrefn benodol.
Meini prawf dethol economaidd	Meini prawf ar gyfer dethol sy'n asesu i ba raddau y mae prosiect yn cyfrannu at flaenoriaethau polisi neu flaenoriaethau strategol penodedig.
Mewnbwn	Nwyddau neu adnoddau e.e. amser, arian, a ddefnyddir ar gyfer cyflenwi gweithgaredd neu brosiect.

Model Un Prif Contractwr	Model ar gyfer ystyried gweithrediad manwl y fecanwaith ar gyfer cyflenwi Cronfeydd Strwythurol trwy ddefnyddio prosiect un prif contractwr (turnkey) arferol o'r sector preifat fel model. Yn y model hwn, ceir cleient (Llywodraeth Cymru), prif contractwr (WEFO) sy'n cyflogi isgcontractwyr (noddwyr prosiectau) sydd yn eu tro â chadwyn cyflenwi (cyrff sydd wedi'u penodi gan isgcontractwyr/noddwyr prosiectau i ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau).
Noddwr y Prosiect	Corff sydd wedi cael arian y Cronfeydd Strwythurol i reoli prosiect.
Offerynnau ariannol	Offerynnau ariannol neu offerynnau peiriannu ariannol: un ai arian parod; tystiolaeth o berchentyaeth o endid; neu hawl dan contract i dderbyn neu gyflenwi arian parod neu offeryn ariannol arall.
Polisi Cydlyniant	Strategaeth yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer hybu a chefnogi "datblygiad cytûn" ei Aelod-Wladwriaethau a'i ranbarthau. Cynhwysir Polisi Cydlyniant yr UE yn y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (Erthygl 174) a'i nod yw atgyfnerthu cydlyniant economaidd a chymdeithasol drwy leihau'r anghyfartaledd rhwng rhanbarthau o ran lefel eu datblygiad.
Prosiect Hanfodol	Prosiect sy'n rhan o'r gweithgareddau hanfodol.
Prosiect Un Prif Contractwr	Prosiect sy'n cael ei redeg ar lun y Model Un Prif Contractwr.
Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan	Corff sy'n gyfrifol am fonitro'r modd y gweithredir Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru rhwng 2007 a 2013. Mae'n cynnwys Cadeirydd yr Awdurdod Rheoli, panel o 10 o aelodau arbenigol a benodwyd drwy broses penodiadau cyhoeddus ynghyd ag 14 o aelodau a enwebwyd i gynrychioli partneriaid a chyrrff statudol. Bydd y Comisiwn Ewropeaidd, Banc Buddsoddi Ewrop a WEFO yn cynghori fel y bo angen.
Risg	Set o amgylchiadau neu ddigwyddiadau all ddylanwadu ar ganlyniad gweithgaredd ac y mae'n rhaid felly ei hasesu a'i rheoli.

Risg busnes	Yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, risg sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd prosiect a ariennir gan y Cronfeydd Strwythurol neu sy'n ceisio cymorth ganddynt.
Risg Cydymffurfio (neu Risg Rheoleiddio)	Yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, risg sy'n gysylltiedig â chymhwysra neu gydymffurfiaeth â rheoliadau prosiect a ariennir gan Gronfeydd Strwythurol neu sy'n derbyn cymorth ganddynt.
Rhaglen Adnewyddu'r Economi	Adolygiad polisi a menter gan Lywodraeth Cymru yn 2010 ynghylch datblygu economaidd er mwyn ymateb i'r dirwasgiad byd eang.
Rhaglen Amcan 1	Rhaglen Cronfeydd Strwythurol 2000-2006 ar gyfer y Gorllewin a'r Cymoedd, o dan yr ERDF a'r ESF. Ei nod oedd helpu i leihau'r gwahaniaethau yn yr amodau cymdeithasol ac economaidd o fewn yr UE, lle roedd ffyniant, o'i fesur mewn GDP, yn 75% neu lai na chyfartaledd Ewrop.
Rhaglen Amcan 2	Rhaglen Cronfeydd Strwythurol 2000-2006 yr ERDF ar gyfer y Dwyrain, gan gynnwys yr ardaloedd a drawyd waethaf gan y dirywiad diwydiannol lle na allai'r diwydiannau traddodiadol gystadlu'n llwyddiannus mwyach, gan beri caledi a chyni cymdeithasol ac economaidd mawr i'r gweithlu lleol.
Rhaglen Amcan 3	Rhaglen Cronfeydd Strwythurol 2000-2006 yr ESF ar gyfer y Dwyrain. Ei nod oedd brwydro yn erbyn diweithdra tymor hir; helpu pobl ifanc a'r rheini sydd mewn perygl o gael eu hallgáu o'r gweithlu; hybu cyfle cyfartal a gwella sefyllfa'r fenyw yn y gweithlu; hybu entrepreneuriaeth a gallu'r gweithlu i addasu; a gwella hyfforddiant, addysg a chwrsela ar gyfer dysgu gydol oes.
Rhaglen Iwerddon-Cymru	Rhaglen Gydweithredu Dirioogaethol Ewropeaidd (2007-2013) sy'n cysylltu arfordir gorllewin Cymru â de-ddwyrain Iwerddon. Mae WEFO yn gydbartner yn y rhaglen €70m hon, €52 ohono'n arian ERDF, i gryfhau cysylltiadau economaidd ar ddwy ochr Môr Iwerddon.

Rhaglenni Gweithredol	Dogfennau cynllunio sy'n dangos sut y caiff yr arian ei wario yn y rhanbarth. Mae'r dogfennau'n disgrifio Blaenoriaethau pob rhaglen, sy'n seiliedig ar ddadansoddiad cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol o anghenion a chyfleoedd y rhanbarth, ac ar feysydd gweithgaredd cymwys yn unol â Rheoliadau'r Comisiwn.
Rhaglen Waith Llywodraeth y DU	Darparu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer hawlwy'r budd-daliadau sydd ag angen mwy o help arnynt i chwilio am waith yn effeithiol ac yn egniol.
Rhanddeiliad	Person, grŵp neu sefydliad sydd efo diddordeb mewn menter, gweithgaredd neu sefydliad, megis y system CS.
Sbardunau galw	Cyfleoedd strategol ar gyfer twf. Gall llawer o'r rhain fod yn gyfleoedd rhanbarthol.
Sectorau Allweddol	Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi buddsoddiad dan arweiniad diwydiant mewn naw sector busnes allweddol.
Seilwaith ffisegol	Adeiladweithiau ffisegol sydd eu hangen ar gymdeithas neu fenter i allu gweithredu, neu'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd eu hangen ar economi iddi allu gweithredu. Fe'i diffinnir fel arfer fel set o elfennau cydgysylltiedig o adeiladwaith sy'n darparu fframwaith sy'n cynnal strwythur datblygiad.
Senedd Ewrop	Sefydliad seneddol yr Undeb Ewropeaidd y caiff yr Aelodau eu hethol yn uniongyrchol iddo.
Strategaeth Arloesi	Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu strategaeth ar gyfer pennu sut y gall arloesi helpu i wella lles pobl Cymru a'r rhagolygon economaidd ar eu cyfer.
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)	Rhan o Lywodraeth Cymru sy'n rheoli'r modd y mae rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE yn cael eu darparu yng Nghymru.
Swyddog Datblygu Prosiectau	Swyddog o WEFO wedi'i neilltuo i reoli portffolio o brosiectau, o'u dechrau i'w diwedd. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor ac arweiniad, trefnu proses datblygu ac arfarnu'r prosiect a threfnu gweithgareddau monitro ar ôl eu cymeradwyo.

Swyddogaeth Porth	Yn cyfeirio at y syniad bod yr asesiad o cymhwyster prosiect yn gweithredu mewn dull tebyg i Adolygiad Porth. Mae Adolygiadau Porth yn adolygiadau penodol o raglen neu prosiect sy'n digwydd cyn pwyntiau penderfynu allweddol oddi fewn i cylch bywyd y rhaglen neu prosiect er mwyn cefnogi'r penderfyniadau allweddol yma.
Synergedd	Chwilio am weithgareddau sy'n ategu ac yn cefnogi'i gilydd.
System Cronfeydd Strwythurol	Partneriaeth sy'n gyfrifol am drefnu'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, WEFO a rhanddeiliaid, eu hymwneud â'i gilydd a'u cyfrifoldebau am gynllunio, darparu a monitro'r defnydd o Gronfeydd Strwythurol yng Nghymru.
Targedau N+2	Rheolau ariannol ar gyfer dyrannu arian blynyddol o Gronfeydd Strwythurol a Chydlyniant yr UE. Os na fydd yr arian dan sylw wedi'i wario erbyn y dyddiad penodol, caiff y Comisiwn ddadneilltuo dyraniadau yn y dyfodol. Caiff arian ei ddadneilltuo'n awtomatig os na chaiff yr arian ei wario neu os na chaiff cais am daliad ei wneud erbyn diwedd yr ail flwyddyn (n+2).
Yr Undeb Ewropeaidd	Undeb economaidd a gwleidyddol o 27 o Aelod-Wladwriaethau a leolir yn Ewrop yn bennaf.
Ychwanegedd	Ychwanegedd yw un o'r egwyddorion sy'n sail i drefniadau gweithredu'r Cronfeydd Strwythurol. Mae'r egwyddor yn pennu na fydd cyfraniadau gan y Cronfeydd Strwythurol yn cymryd lle gwariant cyhoeddus neu wariant strwythurol cyfatebol gan Aelod-Wladwriaeth.
Ymrwymiad	Cronfeydd Strwythurol sydd wedi'u dyrannu i brosiect ond nad ydynt wedi'u hawlio ganddo eto.
Ystafell Ryfela	Ystafell Ryfela yw ystafell gyfarfod i drafod rheolaeth y prosiect. Mae'n ystafell lle bydd rheolwyr y prosiect yn trafod datblygiad cynllun i gynnal prosiect penodol a llwyddiannus. Hefyd, gallent drafod adnoddau, cyllideb, amserlen a heriau posibl.

6.6. Enghreifftiau o Ddata Ychwanegol

Teitl y Prosiect	Enw Noddwr	Cyfanswm Cost y Prosiect
High Performance Computing Wales	Cyfrifiadura Perfformiad Uchel (HPC) Cymru	40.0 miliwn
Nantgarw 3	Coleg Morgannwg	39.3 miliwn
LCRI	Prifysgol Caerdydd	34.3 miliwn
Blaenau Gwent Learning Zone	Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent	31.8 miliwn
Institute For Life Sciences 2	Prifysgol Abertawe	28.8 miliwn
SEACAMS	Prifysgol Bangor	23.6 miliwn
Swansea Bay Innovation Hub	Prifysgol Abertawe	22.2 miliwn
Centre For Nanohealth	Prifysgol Abertawe	21.6 miliwn
Knowledge Exploitation Capacity Development	Llywodraeth Cymru The Economic Development Group within DEandT	20.2 miliwn
BEACON v2	Prifysgol Aberystwyth	20.1 miliwn

Tabl: Y 10 prosiect Seilwaith Gwybodaeth efo'r gwerth cyllid ymrwymedig uchaf. Ffynhonnell WEFO Rhagfyr 2012.

Teitl y Prosiect	Enw Noddwr	Cyfanswm Cost y Prosiect
Next Generation Broadband for Wales Convergence	Llywodraeth Cymru DEandT Transport	294.0 miliwn
A465 Head of the Valleys Dualling Scheme	Llywodraeth Cymru DEandT Transport	150.2 miliwn
Harbour Way	Cyngor Bwrdeisdref Sirol Castell-nedd Port Talbot	96.5 miliwn
JESSICA Wales Urban Development Fund (UDF)	Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio LLP	40.4 miliwn
Wales Station Improvement Programme	Llywodraeth Cymru DEandT Transport	39.9 miliwn
Physical Regeneration In North West Wales	Llywodraeth Cymru DESH Regeneration	37.8 miliwn
A40 Penblewin to Slebech Park Improvements	Llywodraeth Cymru DEandT Transport	37.2 miliwn
The Waterfront City	Dinas a Sir Abertawe	32.2 miliwn
Next Generation Broadband for Wales Competitiveness	Llywodraeth Cymru DEandT Transport	24.5 miliwn
Merthyr Tydfil Town Centre Regeneration Programme	Cyngor Bwrdeisdref Sirol Merthyr Tudful	24.2 miliwn

Tabl: Y 10 prosiect Seilwaith Ffisegol efo'r gwerth cyllid ymrwymedig uchaf. Ffynhonnell WEFO Rhagfyr 2012.

Teitl y Prosiect	Enw Noddwr	Cyfanswm Cost y Prosiect
Modern Apprenticeship World Class Skills For A Knowledge Economy	Llywodraeth Cymru Lifelong Learning and Skills	97.8 miliwn
Skills Growth Wales	Llywodraeth Cymru Lifelong Learning and Skills	75.8 miliwn
All Age Skillbuild for the Unemployed Inactive and NEET	Llywodraeth Cymru Lifelong Learning and Skills	60.0 miliwn
Genesis Cymru Wales 2 Convergence	Llywodraeth Cymru Lifelong Learning and Skills	55.8 miliwn
ReAct ESF Convergence P2	Llywodraeth Cymru Lifelong Learning and Skills	50.8 miliwn
COASTAL	Dinas a Sir Abertawe	48.8 miliwn
Pathways to Apprenticeships	Llywodraeth Cymru Lifelong Learning and Skills	44.7 miliwn
Skills Growth Wales Competitiveness	Llywodraeth Cymru Lifelong Learning and Skills	38.0 miliwn
Work Based Learning Strategies	Prifysgol Morgannwg	34.0 miliwn
Knowledge Economy Skills Scholarships	Prifysgol Bangor	33.0 miliwn

Tabl: Y 10 prosiect Cymorth i Unigolion efo'r gwerth cyllid ymrwymedig uchaf. Ffynhonnell WEFO Rhagfyr 2012.

Teitl y Prosiect	Enw Noddwr	Cyfanswm Cost y Prosiect
JEREMIE Fund (P2 Conv)	Cyllid Cymru Jeremie	75.8 miliwn
JEREMIE Fund (P2 Comp)	Cyllid Cymru Jeremie	40.8 miliwn
Arbed Phase 2 Convergence	Llywodraeth Cymru DESH Climate Change	36.6 miliwn
New Business Start Up Support	Llywodraeth Cymru The Economic Development Group within DEandT	30.3 miliwn
Advanced Sustainable Manufacturing Technologies	Prifysgol Abertawe	26.8 miliwn
Enterprise Networks	Llywodraeth Cymru The Economic Development Group within DEandT	25.4 miliwn
Knowledge Transfer And Collaborative Industrial Research	Llywodraeth Cymru The Economic Development Group within DEandT	25.3 miliwn
Customer Engagement	Llywodraeth Cymru The Economic Development Group within DEandT	22.6 miliwn
JEREMIE Fund (P1 Conv)	Cyllid Cymru Jeremie	21.7 miliwn
SE Wales Local Investment Fund	Cyngor Bwrdeisdref Sirol Rhondda Cynon Taf	20.9 miliwn

Tabl: Y 10 prosiect Cymorth Busnes efo'r gwerth cyllid ymrwymedig uchaf. Ffynhonnell WEFO Rhagfyr 2012.

6.7. Bywgraffiad o Dr Grahame Guilford

Mae Dr Grahame Guilford wedi bod yn ymwneud â'r rhaglenni cronfeydd Ewropeaidd yng Nghymru ers sawl blwyddyn. Ar hyn o bryd, mae'n aelod o Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan, sy'n gyfrifol am fonitro rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2007-2013, ac o Fforwm Partneriaeth Rhaglenni Ewropeaidd 2014-2020, sy'n ystyried sut gall Cymru wneud y defnydd gorau o'r arian a allai ddod o Ewrop yn y dyfodol.

Mae gan Dr Guilford gefndir busnes. Bu'n gweithio yn y sector Gwyddorau Bywyd am 30 mlynedd gydag Amersham International, sef GE Healthcare bellach. Mae wedi bod yn ymwneud yn agos â datblygu economaidd yng Nghymru am bron i 15 mlynedd drwy ei gysylltiadau â Llywodraeth Cymru a'r hen Awdurdod Datblygu Cymru. Bu'n aelod o Gyngor CBI Cymru rhwng 2001 a 2007. Mae'n gyn-Gadeirydd, ac ar hyn o bryd mae'n aelod Gweithredol o Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru. Mae hefyd yn aelod o Banel Cynghori Llywodraeth Cymru ar y sector Gwyddorau Bywyd, a Chyngor Llywodraethu Prifysgol Caerdydd.

Ers iddo ymddeol yn 2007, mae Dr Guilford wedi sefydlu ymgynghoriaeth sy'n gweithio efo prifysgolion a chwmnïau bach yng Nghymru ar masnacheiddio eu harbenigedd.

